# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 12FED MAI, 2016**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD 05/05/16)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru


**DYDD IAU, 5 MAI 2016**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 12 MAI 2016**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 12FED MAI, 2016 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd am 2016/17.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd am 2016/17.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 6 - 27

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir (ynghlwm):-

(i) 3 Mawrth, 2016
(ii) 18 Mawrth, 2016 (cyfarfod arbennig)

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**8. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**9. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU** 28 - 62

(a) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

(b) Derbyn cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**11. Y REFFERENDWM AR AELODAETH O'R UNDEB EWROPEAIDD** 63 - 65

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

**12. DIWYGIADAU I'R COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL** 66 - 81

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGHYSWLLT CEFNOGAETH I AELODAU** 82 - 89

(a) Cyflwyno adroddiad y Cynghorydd Thomas G.Ellis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

(b) Dewis Cadeirydd ar gyfer 2016/17.

**14. CYFLOGAU AELODAU** 90 - 95

Cyflwyno adroddiad y Cynghorydd Thomas G.Ellis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**15. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 96 - 98

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

**16. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Bod y Cyngor yn gofyn i Gabinet Cyngor Gwynedd ystyried ail-edrych ar eu polisi ynglŷn â gosod contractau allan i gyflenwyr bwyd yn ein hysgolion a'r flaenoriaeth a roddir i gwmniau bach lleol.**

**Y rhesymeg tu ôl i hyn yw'r ffaith eu bod yn honni eu bod yn rhoi blaenoriaeth i <u>gwmnïau bach lleol</u> yn hytrach na chwmnïau mawr. Mae hyn yn hanfodol bwysig oherwydd bod rhai cwmnïau yn cyflenwi bwydydd a fewnforiwyd yn arbennig felly cigoedd. Ni ellir pwysleisio'n ormodol y pwysigrwydd o allu olrhain tarddiad pob math o gig gan gofio am helyntion a pheryglon i blant ac oedolion o fwyta cig a heintiwyd e.e. clefyd**

**y gwartheg gwallgof. Oferedd a sinicrwydd ydyw dadlau fod pris y cigoedd a gyflenwir gan gwmnïau mawr yn rhatach wedyn; pa bris a roddir ar ddiogelwch ac iechyd plant?"**

## (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELWYN EDWARDS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elwyn Edwards yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Yn dilyn penderfyniad y Cyngor 18/3/16 i fynd ati i fonitro ac asesu sefyllfa'r Gymraeg (o 2011) yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, bod y Cyngor hwn yn gwahodd Cyngor Môn i fod yn rhan gyflawn o'r gwaith."**

# Y CYNGOR 3/3/16

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Stephen Churchman, Annwen Daniels, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M. Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, William Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Gareth A. Roberts, John Pughe Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Glyn Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R. H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E. Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad - ar gyfer Eitem 8 ar y rhaglen), Meinir Owen (Rheolwr Rhaglen Arbedion - ar gyfer Eitem 10 ar y rhaglen), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd - ar gyfer Eitem 16 ar y rhaglen), Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) - ar gyfer Eitem 16 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Linda Wyn Jones, Christopher O'Neal a Peter Read.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2015, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ychwanegu o dan rhif 5 'Rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar Waith':

"Nododd aelod ei bod yn anghyfforddus â unieithrwydd Saesneg y ffilm a bod staff y Cyngor yn siarad Saesneg."

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 10 ar y rhaglen 'Materion Cyllidebol'. Rhoddwyd arweiniad pellach i'r aelodau y dylent ddatgan buddiant pe rhoddir sylw penodol i fater mewn cynnig neu welliant yn ystod y drafodaeth.

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 10 ar y rhaglen – Materion Cyllidebol, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd W. Roy Owen - oherwydd ei fod yn ymddiriedolwr Canolfan Noddfa.

- Y Cynghorydd W. Tudor Owen - oherwydd ei fod yn is-gadeirydd bwrdd Canolfan Noddfa.
- Y Cynghorydd Gruffydd Williams - oherwydd ei fod yn aelod o Bwyllgor Cae Chwarae Nefyn a oedd wedi gwneud cais am gymhorthdal gan Fantell Gwynedd a Chist Gwynedd.

'Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant.

Nododd y Swyddog Monitro y byddai'r prif swyddogion oedd yn bresennol, ac eithrio'r Prif Weithredwr, yn datgan buddiant ac yn gadael y siambr drwy gydol y drafodaeth ar eitem 9 'Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor'. Ychwanegwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn datgan buddiant ac yn gadael y siambr pe cyfyd trafodaeth yng nghyswllt swydd y Prif Weithredwr.

Datganodd y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid, y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro buddiant personol yn yr eitem hon gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau. 'Roeddent o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(1) Gwellhad Buan

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Peter Read a oedd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

(2) Cydymdeimlad

Talwyd teyrnged gan y Cynghorydd John Wynn Jones i'r diweddar gyn-Gynghorydd Eddie Dogan, fu'n cynrychioli Ward Dewi am flynyddoedd lawer, a chydymdeimlwyd â'i deulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn-Gynghorydd Mair E. Williams (Mair Vanwil) a fu'n aelod gweithgar o'r cyngor hwn am sawl blwyddyn ac yn gyn-Faer Tref Caernarfon.

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

(3) Cyfarfod Arbennig

Adroddwyd y derbyniwyd cais i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn i drafod asesiad iaith y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cynhelir y cyfarfod ar fore dydd Gwener, 18 Mawrth.

(4) Mynediad i swyddfeydd y Cyngor

Nodwyd yn dilyn mwy nag un achos lle'r oedd aelodau'r cyhoedd wedi cael mynediad heb awdurdod i swyddfeydd staff, y cychwynnwyd ar waith i osod system mynediad newydd ar y prif fynedfeydd a rhai drysau allweddol eraill. Dosbarthwyd cardiau adnabod newydd i'r aelodau cyn y cyfarfod i'w galluogi i gael mynediad i adeiladau'r Cyngor lle mae ystafelloedd cyfarfod.

## 4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Adroddwyd, er gwybodaeth, y derbyniwyd ymateb gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon parthed galwad y Cyngor yn ei gyfarfod blaenorol i wrthwynebu'r toriad yng nghyllideb S4C. Roedd yr ymateb a dderbyniwyd ar ddiwedd Ionawr yn pwysleisio bod yn rhaid i'r Llywodraeth wneud penderfyniadau anodd a bod y gostyngiad arfaethedig yng nghyllideb S4C yn llai na sefydliadau eraill. Nodwyd ar ddechrau mis Chwefror, y cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai S4C yn cael y £400,000 o nawdd oedd disgwyl iddo golli, dywedodd yr Ysgrifennydd Diwylliant, John Wittingdale y bydd adolygiad hefyd yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

## 5. CWESTIYNAU

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Wyn Jones

"Be mae'r Arweinydd yn ei wneud i sicrhau bod contractau sero awr yn Cyngor Gwynedd yn cael ei atal?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Arweinydd i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf wedi anelu at ddileu contractau dim oriau ac o fewn trwch blewyn i wneud hynny. Dyna'r peth iawn i wneud a dw i'n falch iawn bod y Cyngor wedi gallu gweithio tuag at y nod yna."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Wyn Jones**

"A all yr Arweinydd roi addewid mewn chwe mis y bydd bob contract sero awr wedi mynd ac y bydd y Cyngor yn ail-edrych ar y sefyllfa o ran gweithwyr tymhorol gyda phroblemau yn codi i rai unigolion o ran cael morgais?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

"Dw i ddim yn meddwl ei fod yn ddoeth i osod amserlen ar unrhyw weithredu, byddai hynny'n gamgymeriad oherwydd mae'n cyfyngu unrhyw bosibiliadau. Gadewch i ni edrych ar y sefyllfa, os oes 'na broblem mae yna ddyletswydd arnom ni fel cyflogwr i ystyried beth yw'r problemau hynny. Dw i ddim yn ymwybodol o'r problemau hynny, mae angen gwneud ychydig bach o waith.

Mae'r Cynghorydd yn iawn i gydnabod bod gwahaniaeth rhwng contractau dim oriau a chontractau eraill, dw i'n falch ei fod yn cydnabod hynny, rhywbeth dydi o ddim wedi gwneud bob amser yn y gorffennol, felly mae hynny'n gam ymlaen.

Gadewch i ni fynd ati a dw i yn rhoi'r addewid yma i'r Cyngor, fe awn i ati i ymchwilio i unrhyw anawsterau ac unrhyw broblemau sydd yn codi o'r math o gytundebau mae'r Cynghorydd wedi cyfeirio atyn nhw ac fe adroddwn yn ôl i'r man priodol gydag unrhyw ddatblygiadau yn y maes. Dw i'n meddwl mai dyna ydi'r ffordd briodol ymlaen."

### (2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Aeron M. Jones

"Gyda nifer helaeth yng Ngwynedd sydd mewn busnes neu'n rhedeg busnes bychain, pa mor llwyddiannus mae'r Cyngor wedi bod wrth weithredu'r Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol o ran cadw gwariant gan y Cyngor gyda chontractwyr lleol?"

**Ateb gan y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae o'n faes pwysig iawn, fel y gwelwch chi o'r ystadegyn 40%. Mae o'n faes cymhleth, mi ydach chi'n gallu cael rhai cwmnïau sydd efo pencadlys tu allan i'r Sir ond efo canghennau o fewn y Sir sydd yn cyflogi yma ac yn gwario yma ac os ydych yn ystyried rheiny mae'n codi'r canran i 54%.

Mi ydan ni'n cyd-weithio yn fewnol o ran newid i sut yr ydan ni'n prynu i reolaeth categori yn hytrach nag adrannau. Er dweud hynna, dw i yn ymwybodol mai Strwythur mewnol ydy hynna, mae yna ddau ran i mi, mae'r pethau mewnol, ond yn allanol mae gweithio efo'r busnesau bach yn benodol yn bwysig ac i mi yn fanno mae'r ffyniant. Mi rydan ni wedi gwneud gwaith trwy'r Panel Cyflawni i weld sut y medrwn ddefnyddio'r Adran Economi a Chymuned i ofyn beth yw'r rhwystrau a ydan ni'n gallu helpu pan fo cwestiynau ar sut i lenwi ffurflenni a phethau felly.

O ran y ganran ei fod yn dda yn gymharol ond dydi hynny ddim i ddweud nad ydyw'n flaenoriaeth a dyna pam dw i'n awyddus i'w gadw yn y Cynllun Strategol.

Dw i'n gredwr cryf yn y cymalau cymdeithasol, os oes contract yn mynd allan bod ni'n ei gwasgu hi i gael apprentis neu rywbeth tebyg ynghlwm â hi, mae'n waith sydd yn parhau. Ystadegau eithaf calonogol ond dw i'n pwysleisio fy mod eisiau gwthio hyn ymhellach."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Aeron M. Jones**

"Ydi hi'n bosib i'r Adran Economi a Chymuned weithio mwy efo busnesau lleol er mwyn cadw gwaith a chadw'r budd yn lleol?"

**Ateb gan y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi**

"Ar ôl cyfarfod diwethaf y Panel Cyflawni, roedd 3 pwynt o bryder i gwmnïau sef cael gwybodaeth ar sut i dendro, pryd a pwy. Mi rydan ni wedi cynnal sesiynau cwrdd â'r prynwyr. Wnâi ddim siarad am dendr penodol ond mae pethau yr ydan ni wedi gallu gwneud fel peidio bod yn rhan o fframwaith cenedlaethol fel bod ni'n cael torri lawr. Mae yn faes cymhleth iawn, ond yn un dw i'n awyddus i ddatblygu.

Mi ydw i hefyd yn gweithio'n eithaf agos efo'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol, dw i'n barod wedi cael dau sesiwn gerbron nhw ac wedi gwahodd fy hun yn ôl am y drydedd waith a dw i'n hapus iawn i wneud y cyd-weithio yma i ddatblygu'r maes."

**6. CYNLLUN STRATEGOL GWYNEDD 2016-17**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Strategol penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod gan dynnu sylw at y prosiectau oedd wedi eu cyflawni a'u hychwanegu ers llynedd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Croesawir y cynllun ond fod ei gyflawni yn ddibynnol ar y penderfyniad o ran y toriadau.
- Bod y gwaith o ran adfywio cymunedol yn hynod bwysig a'i fod yn beth da nad oedd y Cabinet yn argymell cynnwys yr Uned Adfywio Cymunedol fel rhan o'r toriadau.

- Gan gyfeirio at Ysgol Bro Llifon, nododd yr Aelod Cabinet Addysg yr estynnir gwahoddiad i'r aelodau i ymweld â'r adnodd arbennig hwn. Diolchwyd am waith swyddogion yr Adran Addysg a'r Uned Eiddo yng nghyswllt y prosiect.
- Nododd yr Is-gadeirydd bod y drwg deimlad a achoswyd wrth sefydlu'r ysgol newydd wedi mynd a dylai'r aelodau fanteisio ar y gwahoddiad i ymweld â'r ysgol.
- Gan gyfeirio at brosiect G7 'Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd', nododd aelod ei fod yn croesawu cynnwys y prosiect yn y Cynllun Strategol gan fod y cyflwr dementia yn mynd i effeithio ar holl wardiau Gwynedd yn y blynyddoedd i ddod. Nododd bod Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi £30 miliwn i atal dementia, roedd o'r farn y dylid dyrannu ychydig o'r arian ar gyfer unigolion a oedd eisoes wedi derbyn diagnosis oherwydd diffyg gwlâu dementia mewn rhai rhannau o'r Sir.
- Gan gyfeirio at brosiect T7 'Digwyddiadau proffil uchel a strategol', gwerthfawrogiad o dynnu sylw at *Festival No.6* a chroesawu cyfeiriad yn y Cynllun at waith da'r Uned Trwyddedu.
- Bod y cynllun yn gosod uchelgais i'r Cyngor er mwyn cyflawni ar gyfer pobl Gwynedd.
- Bod y Cyngor yn cydweithio yn draws sector ac efo mudiadau'r trydydd sector yng nghyswllt gwasanaethau ataliol er sicrhau'r cyfleoedd gorau i blant a phobl ifanc y Sir.
- Na fyddai'r canlyniadau yn deillio o'r cynllun yn digwydd yn gyflym yn y maes Economi ond y buddsoddir ar gyfer y dyfodol.
- Y cynhelir gweithdai o ran digwyddiadau mawr yn y Sir gan hefyd edrych ar gyfleoedd i dyfu busnesau ac y gwerthfawrogir brwdfrydedd pobl busnes y Sir.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Strategol.**

## 7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TAL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2016/17. Nodwyd bod y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion wedi ystyried y Polisi Tâl yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror 2016 ac yn argymell i'r Cyngor ei fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2016/17 (Atodiad 1 i'r adroddiad).**

## 8. MATERION CYLLIDEBOL

Nododd y Cadeirydd mai efo calon drom y gwneir y penderfyniadau anodd o ran toriadau ond mewn adeg o doriadau cenedlaethol, roedd rhaid i'r Cyngor wneud y penderfyniadau anodd yma. Diolchodd am waith trylwyr y cynghorwyr a chyfeiriodd at frwdfrydedd trigolion Gwynedd yn ystod ymgynghoriad Her Gwynedd a'u gwaith lobio dros yr wythnosau a misoedd diwethaf a oedd wedi bod yn hanfodol i allu dod i gasgliad ar y toriadau.

Cyfeiriodd at ddeiseb a dderbyniwyd cyn y cyfarfod. Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet Economi ei bod wedi derbyn deiseb yng nghyswllt y celfyddydau 'Peidiwch â thorri'r celfyddydau yng Ngwynedd' gyda 1,225 o enwau.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed costau uwchraddio drysau mynediad diogelwch i swyddfeydd y Cyngor, nododd y Pennaeth Cyllid bod bid am £60,000 wedi ei gyflwyno gan yr Adran Rheoleiddio er mwyn gwella diogelwch trefniadau mynediad i swyddfeydd o ganlyniad i ddigwyddiadau. Nodwyd yr ariennir y gwaith yn hafal gan yr Adran Rheoleiddio a'r arian bid.

Cynigiodd yr Aelod Cabinet Adnoddau argymhellion y Cabinet ar gyllideb 2016/17 a'r Dreth Gyngor. Pwysleisiodd bod rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys a hyfyw. Tywysodd yr aelodau drwy'r adroddiad gan nodi bod y strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i bobl Gwynedd a chadw'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i'r lleiafswm. Eiliwyd y cynnig.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r nodyn a ddosbarthwyd ganddo yn manylu ar drefn ymdrin â'r mater hwn. Gwahoddwyd yr aelodau i ddatgan unrhyw welliannau i argymhelliad y Cabinet gan gyfeirio at rif y cynllun dan sylw a chan gofio fod yn rhaid i unrhyw welliant nodi sut y byddai'n sicrhau cyllideb hafal.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y drefn o sefydlu cyllideb a gosod Treth Cyngor, nododd y Swyddog Monitro yn unol â'r drefn statudol bod y Cabinet yn argymell cyllideb a Threth Cyngor i'r Cyngor Llawn.

Nododd aelod bod yr Aelodau Cabinet wedi derbyn mwy o wybodaeth na'r aelodau eraill i ddod i benderfyniad. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr bod y Cabinet wedi derbyn gwybodaeth gynhwysfawr er mwyn iddynt fedru llunio rhestr o doriadau posib cyn rhyddhau'r rhestr i ymgynghori gyda'r cyhoedd. Derbyniodd mai crynodeb yn unig a roddwyd i'r aelodau pan ymgynghorwyd a hwynt yn yr haf y llynedd er mwyn ceisio peidio boddi aelodau a tharo balans priodol o ran y wybodaeth oedd ei angen. Nododd bod y wybodaeth ychwanegol ar gael i'r aelodau eraill pe dymunir.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Gwerthfawrogiad o waith y swyddogion a'r cyhoedd fel rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd.
- O ystyried bod y Cynllun Strategol yn nodi bod oddeutu 6.9 miliwn o ymwelwyr wedi ymweld â Gwynedd yn 2014 gan greu £975 miliwn mewn refeniw, a oedd ystyriaeth wedi ei roi i ail leoli'r canolfannau croeso?
- Bod Gweithgor Craffu wedi argymell codi ffi am ddefnydd o doiledau'r Sir, ystyried un ai eu trosglwyddo i eraill neu agor rhai yn dymhorol ond nad oedd hyn wedi ei weithredu.
- Bod Amgueddfa Lloyd George yn adnodd pwysig o ran addysg a thwristiaeth gyda deisebau ar-lein a galwadau gan Aelodau Cynulliad i gadw'r adnodd o bwysigrwydd cenedlaethol. A oedd ystyriaeth wedi ei roi i gysylltu â Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ei fabwysiadu fel rhan o'r Amgueddfa Genedlaethol?
- Dylid tynnu 2 neu 3 swydd rheolwr llinell oddi ar strwythur staffio'r Cyngor yn hytrach na thorri canolfannau croeso a oedd yn holl bwysig i dwristiaeth. Os penderfynir cau'r canolfannau croeso dylid cadw'r ganolfan a leolir yn Neuadd Dwyfor.
- Dim ond oddeutu 2% o bobl Gwynedd oedd wedi cymryd rhan yn ymgynghoriad Her Gwynedd.
- Pryder o ran trefn y cyfarfod.
- Bod Papur Gwyn Iechyd Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Cyngor yn darparu nifer digonol o doiledau cyhoeddus felly pam fod y Cyngor am gau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir?
- Bod nifer o unigolion ddim wedi cwblhau'r holiadur ar-lein fel rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd gan ei fod yn rhy gymhleth a bod nifer yr ymatebion a dderbyniwyd yn isel o ystyried yr ymarferiad costus hwn.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, nododd y Prif Weithredwr:-

- O ran toiledau cyhoeddus, mai ond rhai o'r toiledau oedd yn economaidd bosib i godi ffi gan osod peiriannau talu ac os dymunir tynnu cynllun rhif 51 (Cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir) allan o'r toriadau yna byddai'n rhaid ychwanegu cynllun arall i'r toriadau neu godi'r Dreth Cyngor. Roedd gwaith i'w wneud o ran pa

doiledau cyhoeddus i'w cau a sut i wireddu'r toriadau ac efallai dylai'r Pwyllgor Craffu fod yn rhan o'r broses.

- Y cydnabyddir y byddai effaith ar dwristiaeth wrth gynnwys rhai cynlluniau yn y rhestr toriadau ond pe tynnir cynllun o'r rhestr byddai rhaid bod cynllun arall yn cael ei ychwanegu neu godi'r Dreth Cyngor.
- Nad oedd trafodaethau wedi eu cynnal efo Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Amgueddfa Lloyd George ond argymhellir gohirio gweithredu ar y toriad tan 1 Ebrill 2017, er mwyn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth gynnal trafodaethau gydag unrhyw gorff a fyddai'n dymuno cymryd cyfrifoldeb am yr amgueddfa.
- Bod gwaith pellach i'w wneud ar rai o'r cynlluniau y cynhwysir yn y rhestr toriadau cyn y gellir eu gweithredu.

Cynigwyd gwelliant i dynnu cynllun rhif 12 (Lleihau 50% ar y grantiau a roddir i fudiadau gwirfoddol ar gyfer prosiectau penodol) a chynllun rhif 26 (Dileu grant Canolfan Noddfa) o'r rhestr toriadau a chynyddu'r Dreth Gyngor 4.03%.

Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai tynnu'r ddau gynllun o'r rhestr toriadau yn golygu cynnydd o 4.09% yn y Dreth Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys. Derbyniodd y cynigydd yr addasiad.

Eiliwyd y gwelliant.

Mewn ymateb i ymholiadau gan yr aelodau yng nghyswllt datgan buddiant, nododd y Swyddog Monitro ei fod wedi gwneud cais i'r aelodau ofyn am arweiniad ymlaen llaw. Ychwanegodd bod yr aelodau wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac mai mater i'r Cynghorydd unigol oedd penderfynu o ran datgan buddiant.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant:-

**O blaid: (8)** Y Cynghorwyr Gwynfor Edwards, Aled Evans, Gwen Griffith, Aled Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Mike Stevens a Glyn Thomas.

**Yn erbyn: (49)** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Stephen Churchman, Annwen Daniels, Lesley Day, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, Caerwyn Roberts, Gareth A. Roberts, John Pughe Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R. H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Atal: (7)** Y Cynghorwyr Chris Hughes, Aeron M. Jones, Brian Jones, Eric Merfyn Jones, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Hefin Underwood.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ar y cynnig gwreiddiol, nodwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod penderfyniad y Cyngor i beidio cyflenwi biniau halen yn medru golygu cynnydd yn mhraeseptau Cynghorau Cymuned.
- Bod y Cyngor wedi ymgynghori ar fwy o raddfa na chynghorau eraill yng Nghymru ac wedi pwyso a mesur y dystiolaeth er mwyn gwarchod gwasanaethau cyhoeddus gan fod pobl Gwynedd yn ddibynnol arnynt.
- Y cydnabyddir y byddai wedi bod o fudd i dderbyn nifer uwch o ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Roedd y toriadau yn anorfod oherwydd polisi Llywodraeth San Steffan.

- Os ceir anawsterau o ran gwireddu'r toriadau yn dilyn gwneud gwaith pellach bod y Cabinet am dderbyn adroddiad.
- A ellir nodi bwriad y Cyngor i godi "premiwm" ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi o flwyddyn ariannol 2017/18 ymlaen heb ddynodi canran?
- Er mwyn gwarchod pobl fregus, roedd y Cabinet yn argymell peidio cynnwys cynllun rhif 34 (Torri 10% ar y Gwasanaethau Cefnogol a roddir i blant drwy Derwen) oherwydd y byddai'n effeithio'n andwyol ar wasanaeth Derwen a oedd yn gwireddu arbedion effeithlonrwydd eisoes.
- Bod sawl cynllun efo gwaith i'w wneud arnynt cyn y gellir gwireddu'r toriadau ac anogir pawb sydd wedi cymryd rhan yn ymgynghoriad Her Gwynedd i barhau efo'r gwaith i ddarganfod ffyrdd amgen o gyflawni.
- Bod cynnydd chwyddiant cyfansawdd o 67% ar y Dreth Cyngor ers 2005 o gymharu â chynnydd chwyddiant cyfansawdd cyffredinol o 37% yn yr un cyfnod, cydnabyddir bod y sefyllfa'n anodd a bod symudiad y Cyngor tuag at y cyflog byw i'w groesawu ond nid oedd craffu digon manwl wedi ei wneud ar y toriadau posib. Felly, 'roedd aelod yn dymuno cynyddu'r Dreth Cyngor 3.5% a gofyn i'r Pwyllgorau Craffu yn ystod y 3 mis nesaf i ystyried y wybodaeth ac argymell ffordd ymlaen i'r Cabinet.
- Cefnogol i gadw'r canolfannau croeso a'r toiledau cyhoeddus ond byddai'n golygu cynnydd uwch yn y Dreth Cyngor. Nid oedd manylion rhai o'r cynlluniau yn wybyddus felly byddai'r aelod yn atal ei bleidlais.
- Bod angen i waith fynd rhagddo i gysoni'r hyn mae cymunedau a'r Cyngor yn cyflawni.
- Bod nifer uchel o ymatebion i'r ymgynghoriad gan fudiadau a gwasanaethau ond bod lefel yr ymateb yn isel o ran cynlluniau a fyddai'n effeithio ar blant ac oedolion bregus felly yn falch bod y Cyngor am edrych ar eu hôl nhw.
- A ellir cael esboniad pan fo rhai enwau yn y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r aelodau wedi eu dileu?

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, nododd y swyddogion:-

- O ran codi "premiwm" ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, y byddai'n rhaid rhoi rhybudd pendant o ran y "premiwm" os am weithredu o flwyddyn ariannol 2017/18 ymlaen. Roedd Ymchwiliad Craffu Tai Gwyliau a Threthi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac argymhellir aros i weld canlyniad yr ymchwiliad ac yna asesu'r sefyllfa gyda'r holl wybodaeth cyn dod i benderfyniad.
- O ran y dyhead i gynyddu'r Dreth Cyngor 3.5% a gofyn i'r Pwyllgorau Craffu yn ystod y 3 mis nesaf i ystyried y wybodaeth ac argymell ffordd ymlaen i'r Cabinet, nid oedd yn welliant priodol gan fod gofyn cyfreithiol i osod cyllideb hafal ac fel y nodwyd ar y cychwyn, byddai'n rhaid nodi yn benodol sut y bwriedir cyfarch y bwlch ariannol.
- Cydnabyddir bod anghysondeb o ran ariannu gan y Cyngor a'r Cynghorau Cymuned. Cynhelir cyfarfodydd efo Cynghorau Cymuned ar hyn o bryd a bydd gwaith yn cael ei wneud yn y dyfodol agos i edrych ar y sefyllfa wrth chwilio am arbedion effeithlonrwydd pellach a gallai'r Pwyllgorau Craffu efallai gymryd rhan yn y broses.
- Bod data yn y wybodaeth ychwanegol megis cyfeiriadau e-bost personol wedi eu cuddio er mwyn cydymffurfio a rheolau diogelu data gan fod y dogfennau yn gyhoeddus.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

**O blaid: (58)** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Annwen Daniels, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Sian Wyn Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W. Jones,

Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Beth Lawton, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, W. Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Gareth A. Roberts, John Pughe Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, R. H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Yn erbyn: (9)** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Thomas Ellis, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Jason Humphreys, Aeron M. Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Lloyd ac Owain Williams.

**Atal: (2)** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Glyn Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynir gan y Cabinet fel y'i nodir yn yr adroddiad, fydd yn golygu cynyddu'r Dreth Cyngor 3.97% ar gyfer 2016/17.**

2. **Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 6 Tachwedd 2015, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2016/17 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

**(a) 49,932.37 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 526.68 | Llanddeiniolen | 1,809.82 |
| Aberdyfi | 925.62 | Llandderfel | 489.47 |
| Abergwyngregyn | 116.15 | Llanegryn | 153.55 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,085.90 | Llanelltyd | 272.58 |
| Arthog | 607.53 | Llanengan | 1,958.38 |
| Y Bala | 760.10 | Llanfair | 305.07 |
| Bangor | 3,640.77 | Llanfihangel y Pennant | 204.16 |
| Beddgelert | 306.95 | Llanfrothen | 209.90 |
| Betws Garmon | 130.77 | Llangelynnin | 390.27 |
| Bethesda | 1,641.55 | Llangywer | 133.74 |
| Bontnewydd | 439.05 | Llanllechid | 336.18 |
| Botwnnog | 436.07 | Llanllyfni | 1,376.49 |
| Brithdir a Llanfachreth | 397.62 | Llannor | 891.25 |
| Bryncrug | 331.06 | Llanrug | 1,122.86 |
| Buan | 225.99 | Llanuwchllyn | 300.51 |
| Caernarfon | 3,449.47 | Llanwnda | 771.51 |
| Clynnog Fawr | 432.03 | Llanycil | 195.06 |
| Corris | 293.73 | Llanystumdwy | 861.68 |
| Criccieth | 911.69 | Maentwrog | 273.75 |
| Dolbenmaen | 582.77 | Mawddwy | 331.44 |
| Dolgellau | 1,183.41 | Nefyn | 1,382.45 |
| Dyffryn Ardudwy | 788.20 | Pennal | 219.60 |
| Y Felinheli | 1,105.05 | Penrhyndeudraeth | 749.49 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffestiniog | 1,675.41 | Pentir | 1,022.55 |
| Y Ganllwyd | 80.70 | Pistyll | 239.92 |
| Harlech | 745.00 | Porthmadog | 1,934.14 |
| Llanaelhaearn | 430.45 | Pwllheli | 1,700.31 |
| Llanbedr | 307.34 | Talsarnau | 305.16 |
| Llanbedrog | 678.35 | Trawsfynydd | 500.78 |
| Llanberis | 766.49 | Tudweiliog | 440.50 |
| Llandwrog | 989.69 | Tywyn | 1,554.84 |
| Llandygai | 958.16 | Waunfawr | 545.21 |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2016/17 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

**(a) £340,323,810** **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).**

**(b) £111,524,200** **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).**

**(c) £228,799,610** **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).**

**(ch) £166,696,539** **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.**

**(d) £1,243.74** **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).**

**(dd) £1,826,710** **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).**

**(e) £1,207.16** **Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).**

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,224.25 | Llanddeiniolen | 1,215.45 |
| Aberdyfi | 1,232.62 | Llandderfel | 1,225.34 |
| Abergwyngregyn | 1,224.38 | Llanegryn | 1,233.21 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,255.05 | Llanelltyd | 1,231.01 |
| Arthog | 1,221.15 | Llanengan | 1,232.69 |
| Y Bala | 1,232.16 | Llanfair | 1,230.11 |
| Bangor | 1,298.22 | Llanfihangel y Pennant | 1,235.35 |
| Beddgelert | 1,234.85 | Llanfrothen | 1,232.41 |
| Betws Garmon | 1,217.10 | Llangelynnin | 1,227.15 |
| Bethesda | 1,241.72 | Llangywer | 1,237.07 |
| Bontnewydd | 1,242.46 | Llanllechid | 1,229.47 |
| Botwnnog | 1,218.63 | Llanllyfni | 1,235.09 |
| Brithdir a Llanfachreth | 1,222.25 | Llannor | 1,224.17 |
| Bryncrug | 1,231.96 | Llanrug | 1,229.42 |
| Buan | 1,223.75 | Llanuwchllyn | 1,240.44 |
| Caernarfon | 1,264.70 | Llanwnda | 1,230.75 |
| Clynnog Fawr | 1,225.68 | Llanycil | 1,224.08 |
| Corris | 1,227.53 | Llanystumdwy | 1,224.57 |
| Criccieth | 1,244.45 | Maentwrog | 1,227.80 |
| Dolbenmaen | 1,224.32 | Mawddwy | 1,223.75 |
| Dolgellau | 1,249.41 | Nefyn | 1,243.31 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,232.53 | Pennal | 1,234.48 |
| Y Felinheli | 1,238.83 | Penrhyndeudraeth | 1,252.52 |
| Ffestiniog | 1,290.72 | Pentir | 1,236.37 |
| Y Ganllwyd | 1,245.57 | Pistyll | 1,230.08 |
| Harlech | 1,229.98 | Porthmadog | 1,234.56 |
| Llanaelhaearn | 1,265.24 | Pwllheli | 1,248.62 |
| Llanbedr | 1,242.95 | Talsarnau | 1,239.93 |
| Llanbedrog | 1,232.22 | Trawsfynydd | 1,233.12 |
| Llanberis | 1,233.25 | Tudweiliog | 1,220.78 |
| Llandwrog | 1,246.06 | Tywyn | 1,255.40 |
| Llandygai | 1,228.24 | Waunfawr | 1,229.17 |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn *Atodiad 1*, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2016/17 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 160.08 | 186.76 | 213.44 | 240.12 | 293.48 | 346.84 | 400.20 | 480.24 | 560.28 |

**5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2016/17 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

## 9. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2016/17

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r strategaethau arfaethedig.

Cadarnhaodd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod y pwyllgor hwnnw wedi trafod y strategaethau mewn seminar ac mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol, ac yn cefnogi'r argymhellion.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2016/17 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B) a'r Atodlenni Rheolaeth Trysorlys (Atodiad C).**

## 10. POLISI IAITH AR GYFER CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad gan nodi bod y drefn bresennol o gynlluniau iaith statudol yn dod i ben gyda dyfodiad y Safonau Iaith newydd yn Ebrill 2016. Nodwyd bod y polisi gerbron yn addasiad a diweddariad o'r hen Gynllun Iaith a oedd wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Iaith ar 14 Ionawr 2016.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau:-

- Tra'n croesawu'r polisi, y dylid mynnu a dim annog consortia a chyrff allanol i gydymffurfio a Pholisi Iaith y Cyngor.
- Bod dogfennau'r amlosgfa, er y cydnabyddir mai ffurflenni'r Swyddfa Gartref ydynt, sydd yn arddangos logo'r Cyngor yn uniaith Saesneg.
- Y derbynnir gohebiaeth gan y Cyngor drwy'r post gyda'r iaith Saesneg yn amlwg weithiaf yn hytrach na'r iaith Gymraeg.
- Bod y polisi yn nodi bod unrhyw hysbysiadau neu bosteri gan gyrff a chwmnïau eraill a arddangosir yn adeiladau'r Cyngor yn gorfod bod yn ddwyieithog. Felly, roedd yn gwahardd posteri uniaith Gymraeg.
- Nad oedd holl sylwadau'r Pwyllgor Iaith ar y polisi wedi eu cynnwys yn ddigonol yn y ddogfen.
- Ei fod yn ddogfen gref a theg oedd yn gwthio'r ffiniau cyfreithiol.
- Ni ddylid gorfodi dwyieithrwydd ar gymdeithasau neu grwpiau cymunedol sydd yn derbyn nawdd gan y Cyngor a oedd yn gweithredu yn uniaith Gymraeg.
- Lle penodir unigolyn sydd ddim yn cyrraedd y gofynion ieithyddol llawn i swydd, dylid bod modd i ddod ac amser unigolyn yn y swydd i ben pan fo diffyg ymrwymiad neu

ddiffyg gallu i wella sgiliau ieithyddol dros gyfnod o amser i'r safon angenrheidiol ar gyfer anghenion y swydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn cydnabod y pwyntiau a godwyd. Nododd bod Polisi Iaith y Cyngor yr un mwyaf blaengar ond bod lle i wella. Ychwanegodd mai ond hyrwyddo'r iaith y gall y Cyngor ac y byddai'n edrych i mewn i weld os oes modd cryfhau darnau o'r polisi a rhoi sylw i'r elfennau personél. Cadarnhaodd y cynhelir deialog parhaus efo'r Pwyllgor Iaith.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) Cymeradwyo ychwanegu'r Polisi Iaith at y rhestr o bolisïau sydd o fewn y Fframwaith Bolisi i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn;**

**(ii) Mabwysiadu'r polisi sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad fel Polisi Iaith Cyngor Gwynedd.**

**11. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor ystyried a phenderfynu ar argymhelliad y Panel Ymgynghorol i benodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau yn sgil y ffaith bod gwasanaeth un o aelodau annibynnol y Pwyllgor wedi dod i ben.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau parthed yr unigolyn a argymhellir ei benodi, nododd y Swyddog Monitro fod y Panel Ymgynghorol wedi dilyn proses fanwl a statudol ac nad oedd aelodaeth unigolyn o blaid wleidyddol yn ystyriaeth oddi mewn i'r meini prawf.

**PENDERFYNWYD penodi Aled Jones yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i wasanaethu am gyfnod o 6 mlynedd.**

**12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Nodwyd yr argymhellir dyrannu sedd a glustnodwyd i Grŵp Plaid Cymru ar y Pwyllgor Pensiynau i'r Grŵp Llafur gan fod y Cyngor newydd gwrdd â chostau penodol i hyfforddi aelod etholedig o'r Grŵp Llafur i wasanaethu ar y Pwyllgor hwn. Eglurwyd gan nad oedd Grŵp Plaid Cymru yn dechnegol wedi penodi aelod i'r Pwyllgor roedd yn agored i'r Cyngor benodi.

**PENDERFYNWYD penodi aelod o'r Grŵp Llafur i'r Pwyllgor Pensiynau gan newid y dyraniad yn y modd a ddangosir yn y tabl.**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 5 | 2 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 10 | 4 | 2 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 10 | 5 | 2 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 4 | 2 | 1 | | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | | |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 2 | | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 | |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| **Nifer y seddau** | **82** | **41** | **16** | **9** | **4** | **2** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 1 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **102** | **51** | **20** | **13** | **5** | **3** | **194** |

***(newidiadau wedi'u hamlygu mewn llwyd)***

**13. CALENDR PWYLLGORAU 2016/17**

Cyflwynodd yr Arweinydd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2016/17.**

**14. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – AMSERLEN DDIWYGIEDIG I'W CHYNNWYS YN Y CYTUNDEB CYFLAWNI**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cynllunio adroddiad yn manylu ar amserlen ddiwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Mewn ymateb i sylwadau gan yr aelodau yng nghyswllt cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, nododd yr Aelod Cabinet Cynllunio mai'r amserlen yn unig yr ystyrir yn y cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig (Atodiad 1 i'r adroddiad) i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaeth.**

**15. RHYBUDDION O GYNNIG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan y Trysorlys mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Sian Gwenllian i'r cyfarfod blaenorol yn gwrthwynebu polisiau ariannol y Trysorlys.

Adroddwyd y derbyniwyd ymateb gan Liz Saville Roberts AS yn datgan cefnogaeth i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn gwrthwynebu'r Mesur Undebau Llafur newydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 4.00pm.

# CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR, 18.03.16

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Anwen Davies, Lesley Day, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, Owain Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Dewi Morgan (Uwch Reolwr – Refeniw a Risg), Gareth Jones (Uwch Reolwr – Cynllunio ac Amgylchedd), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Endaf Cooke, Annwen Daniels, Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Dyfrig Jones, Linda Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Linda Morgan, W.Roy Owen, Peter Read, Caerwyn Roberts, Mair Rowlands, Glyn Thomas, Ioan Thomas, Gethin Glyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Llongyfarchwyd:-

- Y Cynghorydd Charles Wyn Jones ar ennill gradd Baglor mewn Diwinyddiaeth (Bth) gyda chlod drwy Athrofa Ddiwinyddol De Affrica.
- Pawb a enillodd wobr yn Seremoni'r Cyngor ar ei Orau a Gwobr Goffa Dafydd Orwig yr wythnos ddiwethaf. Diolchwyd hefyd i bawb fu ynghlwm â'r seremoni.
- Janet Williams, Rhiant Maeth gyda'r Cyngor ar ennill y Wobr Dinasyddiaeth yng Ngwobrau Gŵyl Ddewi eleni.

## 3. CWESTIWN

Eglurodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Eurig Wyn wedi cyflwyno cwestiwn cyn y Cyngor diwethaf, ond i'r cwestiwn ddod i law ar ôl y dyddiad cau, a'i fod felly am ganiatáu i'r cwestiwn gael ei ofyn yn y cyfarfod arbennig hwn o'r Cyngor.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Eurig Wyn (a ofynnwyd gan y Cynghorydd Hefin Williams yn absenoldeb y Cynghorydd Eurig Wyn)**

"Pa fudd cymunedol ariannol a gyflwynir i gymuned Waunfawr o ganlyniad i'r difrod a wnaed i'w hardal yn sgil datblygiadau FIRST HYDRO i sefydlu cynllun trydan dŵr yn eu hardal?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Yn y bôn, nid yw ystyriaeth cyfraniadau i gymunedau lleol yn rhan o'r system gynllunio ac nid ydym yn ymwybodol o fudd cymunedol ariannol penodol a roddwyd i gymuned Waunfawr yn sgil datblygu Gorsaf Bŵer Dinorwig. Er hyn, rhaid nodi bod y budd economaidd mae'r cynllun yma wedi'i ddarparu yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn ystod y cyfnod gweithredu hyd heddiw wedi bod yn sylweddol i'r ardal leol, sydd ei hun yn fudd i'r gymuned."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Eurig Wyn (a ofynnwyd gan y Cynghorydd Hefin Williams yn absenoldeb y Cynghorydd Eurig Wyn)**

"A gytuna'r Cyngor ymchwilio drwy'r Adran Gynllunio i ddatblygiadau cyffelyb yn yr Alban lle mae Cynghorau Sir a'r Senedd wedi creu strategaeth effeithiol i ariannu cynlluniau o'r fath a gofalu darparu budd-dal i'r cymunedau?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae canllawiau llywodraeth yr Alban yn pwysleisio hefyd bod budd cymunedol ariannol yn drefniant gwirfoddol sydd yn hollol ar wahân i'r broses gynllunio ac felly mae'r un peth yn wir yn y fan honno, ond mae'r gwaith cychwynnol wedi'i wneud gan swyddogion o Wasanaeth Eiddo ac Adran Economi a Chymuned y Cyngor i geisio edrych ar y buddiannau economaidd cymunedol all fod ynghlwm â datblygiadau ynni adnewyddol. Hefyd, mae'n bwysig dweud, mewn sefyllfaoedd lle mae cynlluniau adnewyddol ar dir lle mae'r Cyngor yn dirfeddiannwr, ac mae hyn yn wir yng Nglyn Rhonwy, sef cais sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, mi fydd y Cyngor yn ystyried cyfleoedd i negodi buddion cymunedol fel rhan o drefniant ar gyfer trosglwyddo tir."

## 4. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Eglurodd y Cadeirydd, yn unol â rhan 4.12.1(d) o'r Cyfansoddiad, y derbyniwyd llythyr gan y Cynghorydd Aled Evans, oedd wedi ei arwyddo gan 9 o gynghorwyr eraill yn gofyn am gyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod: "*agwedd ar y Cynllun Datblygu Lleol (Gwynedd a Môn), sef y dull aed ati i gloriannu effaith y cynllun arfaethedig hwn ar yr iaith Gymraeg. Teimlwn nad ydyw'r hyn a wnaed ynddo yn dderbyniol o ran amddiffyn y Gymraeg a hoffem ystyried camau pellach i ddadwneud y diffyg hwn*."

Pwysleisiodd y Cadeirydd mai'r mater hwn yn unig fyddai'n cael ei drafod ac na fyddai modd yn gyfansoddiadol i drafod unrhyw agwedd arall o'r cynllun.

Rhoddodd y Swyddog Monitro arweiniad parthed y sefyllfa gyfreithiol gyffredinol a chyfansoddiadol ynglŷn â'r drafodaeth, gan nodi:-

- Bod datblygiad y Cynllun Adnau yn fater sydd yn nwylo'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y Cyd a bod y penderfyniadau ar yr ymgynghoriad, yr ymateb i'r ymgynghoriad a'i gyflwyniad ar gyfer ymchwiliad annibynnol wedi eu dirprwyo gan y Cyngor hwn i'r Cyd-bwyllgor ers 2011.
- Ar 29 Ionawr eleni, y penderfynodd y Cyd-bwyllgor dderbyn bod y cynllun yn mynd ymlaen i ymchwiliad annibynnol, ac ar y sail hynny, hysbysebwyd y penderfyniad a chychwynnwyd ar y gwaith paratoi.
- Bod y penderfyniad hwn yn unol â hawliau dirprwyedig y Cyd-bwyllgor, oedd yn fodlon, ar ran Cyngor Gwynedd, bod y cynllun yn gadarn i fynd ymlaen i'r ymchwiliad a bod y broses a'r ymateb yn gadarn i fynd ymlaen i ymchwiliad. Gan hynny, nid oedd yn gyfreithiol bosib', i'r Cyngor wyrdroi'r penderfyniad yma.
- Ei fod yn benderfyniad ar y cyd ag Ynys Môn a bod yna arwyddocâd i'r penderfyniad yna hefyd i'r sawl sydd wedi cefnogi neu wrthwynebu'r cynllun.
- Bod yna broses sy'n caniatáu i'r gwrthwynebiadau i'r cynllun gael sylw gan yr Arolygydd a'i bod yn debygol y byddai yna wrandawiadau ar yr ymateb i rai o'r materion yma hefyd ac felly byddai'r gwrthwynebiadau yn cael eu cloriannu.
- Nad oedd y cais am gyfarfod arbennig o'r Cyngor yn nodi rhybudd o gynnig penodol, eithr yn gofyn am drafodaeth yn unig. Yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor, i gael trafodaeth, 'roedd yn rhaid cael cynnig, ac un o'r amgylchiadau prin lle gellid gwneud cynnig heb rybudd oedd drwy argymhelliad gan Aelod Cabinet. Gan hynny, bwriadai'r Aelod Cabinet Cynllunio roi cynnig gerbron er mwyn agor y drafodaeth. Mater i'r aelodau wedyn fyddai ystyried a oeddent am dderbyn y cynnig neu roi gwelliannau priodol ymlaen.

Cynigiwyd ac eiliwyd i roi'r Rheolau Gweithdrefn o'r neilltu er mwyn caniatáu i unrhyw aelod wneud cynnig gerbron y Cyngor.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig i roi'r Rheolau Gweithdrefn o'r neilltu.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid: (32)** Y Cynghorwyr - Craig ab Iago, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Aeron Jones, Aled Wyn Jones, Brian Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Dilwyn Morgan, W.Tudor Owen, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Yn erbyn: (13)** Y Cynghorwyr – Lesley Day, Dyfed Edwards, Gwen Griffith, Anne Lloyd Jones, John Wynn Jones, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, W.Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Hefin Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Yn atal: (2)** Y Cynghorwyr – Thomas Ellis a Charles W.Jones

Gan i fwyafrif yr aelodau bleidleisio o blaid y cynnig, cyhoeddodd y Cadeirydd y rhoddwyd y Rheolau Gweithdrefn o'r neilltu am y cyfarfod hwn.

Holodd aelod a oedd y Cyfansoddiad yn caniatáu i unrhyw aelod godi pleidlais o ddiffyg hyder ar adran, unigolyn neu uned. Atebodd y Swyddog Monitro mai'r hyn oedd gerbron y cyfarfod hwn oedd ystyriaeth o'r dull yr aed ati i gloriannu effaith y cynllun arfaethedig ar yr iaith Gymraeg ac felly na fyddai'n briodol i ehangu hynny i gynnig o ddiffyg hyder gan nad oedd hynny ar y rhaglen ac nad oedd yr aelodau wedi derbyn rhybudd o fwriad i wneud cynnig o'r fath.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Aled Evans i esbonio pam ei fod ef a'i gyd-gynghorwyr wedi galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ac i gyflwyno'r dystiolaeth a gyflwynodd i'r Cyngor.

Nododd y Cynghorydd Aled Evans:-

- Y gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Cynllunio yn y Cyngor llawn ar 5 Mawrth, 2015 sut fyddai unrhyw ymatebion a ddeuai i law yn yr ymgynghoriad yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun ac i'r Aelod Cabinet annog pawb i fynd ati i ymateb i'r ymgynghoriad.
- Y bu ymateb trylwyr a manwl i'r ymgynghoriad a chyhoeddwyd yr ymatebion hyn ar 29 Ionawr, ond cafodd llawer o'r hyn o'r hyn oedd wedi'i roi gerbron ei roi o'r neilltu.
- Y cafwyd cais yn dilyn hynny gan sawl mudiad ac unigolyn ar gynghorwyr fel yntau ac eraill i alw am gyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn i drafod y mater, ac yn sgil hynny, bod ganddo gynnig i'w wneud.

Eglurodd y Cadeirydd y gellid rhoi'r cynnig ar ôl i'r Aelod Cabinet gyflwyno ei achos.

Rhoddwyd cyflwyniad ar y Cynllun Datblygu Lleol a'r Iaith Gymraeg gan y Cynghorydd Elin Walker Jones, ar ran yr aelodau oedd wedi galw am y cyfarfod arbennig. Eglurodd y rhesymeg y tu ôl i alw'r cyfarfod trwy gyfeirio at nifer o ystadegau ynglŷn â sefyllfa'r iaith Gymraeg, ac i grynhoi, pwysleisiodd:-

- Bod angen monitro llawn ac ystyrlon o sefyllfa'r Gymraeg o 2011 ymlaen.
- Y dylid gwneud defnydd llawn o ffigurau'r Cyfrifiad ac unrhyw wybodaeth berthnasol.
- Y dylai cryfder y Gymraeg yng Ngwynedd a Môn olygu ei bod yn cael sylw a statws arbennig fel ardal o sensitifrwydd ieithyddol.
- Y dylid mynd ati rhag blaen i ddatblygu mecanwaith monitro ystyrlon fyddai'n bwydo i mewn i ddogfen fyw yr asesiad iaith yn gyson.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet Cynllunio i roi cyflwyniad.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cynllunio yr adroddiad ffeithiol a ddosbarthwyd gyda rhaglen y cyfarfod gan dynnu sylw at:-

- Y cefndir perthnasol a'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau am y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Y cyd-destun deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol – paratoi cynlluniau datblygu lleol ar y cyd ac asesu effaith ar yr iaith Gymraeg.
- Trosolwg o'r prosesau.
- Y dystiolaeth.
- Cyfranogiad ac ymgynghori cyhoeddus (gan gynnwys mewnbwn cynghorwyr) a phroses gwneud penderfyniadau.
- Asesiad cynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol).
- Asesiad Effaith Ieithyddol.
- Yr ymgynghoriad cyhoeddus am y Cynllun Adnau: Chwefror – Mawrth 2015.
- Penderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd – Ionawr 2016.
- Ymgynghori am y Newidiadau â Ffocws - gan bwysleisio bod cyfle hyd 13 Ebrill i anfon sylwadau ynglŷn â'r newidiadau a ddeilliodd o'r cyfnod ymgynghori cynt.
- Yr Archwiliad Cyhoeddus.
- Casgliad – (i) bod y broses wedi .bod yn un gwbl gynhwysol, gyda nifer o gyfleoedd wedi bod trwy gydol y broses i gynghorwyr a chymunedau gael mewnbwn, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a gafodd ei gymeradwyo gan y

Cynghorau ar ddechrau'r broses, a (ii) bod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi bodloni'r gofynion statudol, gan gynnwys ystyried y Gymraeg a'r defnydd ohoni o safbwynt eu perthnasedd i ddefnydd tir.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig cael cynnig er mwyn agor y drafodaeth a bod hawl, yn gyfansoddiadol, gan unrhyw aelod i wneud hynny o fod wedi rhoi'r Rheolau Gweithdrefn o'r neilltu.

Cynigiwyd y canlynol:-

*"Yn wyneb y ffaith bod y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cymryd peth amser yn fwy i'w chyflawni a bod ymestyn y cynllun cyfredol wedi gorfod digwydd, sylweddolir na fu monitro cyfoes llawn ac ystyrlon ar y sefyllfa. Felly, o dderbyn mai dogfen fyw ymatebol ydyw asesiad iaith y Cynllun Datblygu Lleol, gofynnwn i'r Cyngor ymgynghori ar ffyrdd o gyfoesi monitro effaith y sefyllfa gynllunio bresennol ac arfaethedig ar y Gymraeg. Dylai hynny ddigwydd gyda defnydd llawn o ffigurau Cyfrifiad 2011 a hefyd gydag ystyriaeth o addasrwydd gwaelodol y nifer tai a phoblogaeth sy'n sail i'r cynllun. Noder fod y cynllun newydd i fod yn weithredol yn 2016 neu 2017 ac na fu dim monitro ers 2011 tra bod y ddelfryd yn y cynllun newydd yn nodi y dylid monitro yn flynyddol."*

Cyn gofyn am eilydd, gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro sicrhau bod y cynnig yn gyfansoddiadol.

Nododd y Swyddog Monitro ei fod o'r farn bod brawddeg gyntaf y cynnig, ac yn benodol y geiriau '*na fu monitro cyfoes llawn ac ystyrlon ar y sefyllfa*', yn gwyrdroi penderfyniad y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd oherwydd bod y Cyd-bwyllgor wedi dod i gasgliad bod yr wybodaeth a dderbyniodd yn ystyrlon a phriodol a bod y cynllun yn gadarn i fynd ymlaen i ymchwiliad.

Mynegodd y cynigydd ei barodrwydd i hepgor brawddeg gyntaf y cynnig a darllenodd y Cadeirydd y cynnig wedi'i ddiwygio, sef:-

*"O dderbyn mai dogfen fyw ymatebol ydyw asesiad iaith y Cynllun Datblygu Lleol, gofynnwn i'r Cyngor ymgynghori ar ffyrdd o gyfoesi monitro effaith y sefyllfa gynllunio bresennol ac arfaethedig ar y Gymraeg. Dylai hynny ddigwydd gyda defnydd llawn o ffigurau Cyfrifiad 2011 a hefyd gydag ystyriaeth o addasrwydd gwaelodol y nifer tai a phoblogaeth sy'n sail i'r cynllun."*

Eiliwyd y cynnig.

Cynigiwyd y gwelliant canlynol:-

"*O dderbyn mai dogfen fyw ydi asesiad iaith y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, o'i fabwysiadu bydd y Cyngor yn ymrwymo i sicrhau y bydd y monitro a'r adolygu yn seiliedig ar y data fwyaf cyfredol fydd ar gael ar y pryd.*"

Eiliwyd y gwelliant.

Mynegodd rhai aelodau eu hanfodlonrwydd gyda'r cynllun yn ei gyfanrwydd a'r broses, gan nodi eu bod yn dod i'r casgliad y dylid codi pleidlais o ddiffyg hyder yn y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mewn ymateb, pwysleisiodd y Swyddog Monitro mai'r dull o gloriannu effaith y cynllun ar yr iaith Gymraeg yn unig oedd gerbron y Cyngor ac y dylai rhybudd o gynnig o fath fod wedi'i roi fel rhan o'r broses o alw'r cyfarfod.

Nododd aelod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd nad oedd ganddo yntau lawer o hyder yn y Cyd-bwyllgor oherwydd iddo wrthwynebu'r niferoedd tai sy'n cael eu codi am resymau ieithyddol drwy gydol yr amser.

Awgrymwyd bod modd cyplysu'r cynnig a'r gwelliant gan fod y cynnig yn tanlinellu'r angen i edrych ar y dystiolaeth wrth i'r cynllun symud i fod yn weithredol tra bod y gwelliant yn cyfeirio at ddefnyddio pob arbenigedd ac edrych ar bob data, megis ystadegau cymdeithasol cyfoes, allai fod yn fwy defnyddiol nag ystadegau'r Cyfrifiad yn unig, i wneud hynny.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:-

- Y dymunid gweld polisi cynllunio sy'n galluogi trosi beudai ac adeiladau fferm i'w defnyddio gan bobl leol er budd y gymuned a'r iaith Gymraeg.
- Bod rhaid gweithredu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol ym mhob agwedd o waith y Cyngor os yw'r iaith Gymraeg am barhau yn iaith hyfyw o fewn cymunedau'r sir.
- Bod y Cynllun, fel mae'n sefyll ar hyn o bryd, yn gweithredu'n groes i Ddeddf Cynllunio 2015 sy'n cyfeirio at yr angen i ganolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol sy'n cael eu hadnabod mewn strategaeth leol gyda sylfaen o dystiolaeth ynghyd â chynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal.
- Y gwrthodwyd cais y Pwyllgor Iaith am drafodaeth ar y Cynllun Adnau.
- Bod 160 o sylwadau ar y Cynllun wedi'u taflu o'r neilltu, ar y sail nad oeddent yn ddigon grymus, yn ôl y swyddogion a chyfeiriwyd yn benodol at dystiolaeth a gyflwynwyd gan wahanol gynghorau bro ynglŷn â'r angen lleol am dai, ond a ddiystyriwyd.
- Bod Hunaniaith wedi datgan yn glir, heb dystiolaeth gadarn o'r angen lleol am dai, ei bod yn anodd gwybod i sicrwydd ai effaith gadarnhaol neu negyddol a gaiff unrhyw ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg, ond o ystyried sefyllfa fregus yr iaith Gymraeg, fel iaith leiafrifol, nad oedd modd cymryd y siawns yma heb wybod i sicrwydd y bydd unrhyw ddatblygiad yn atgyfnerthu sefyllfa'r iaith.
- Dylid cydnabod y dylai pob datblygiad economaidd neu aneddleoedd atgyfnerthu'r Gymraeg ac na ddylid ystyried unrhyw ddatblygiad fyddai'n golygu mesurau i liniaru ei effaith ar yr iaith Gymraeg.
- Bod Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd a Môn yn datgan na fydd yn debygol y bydd y cynllun hwn yn gwarchod y Gymraeg.
- Ei bod yn fater o dristwch i'r aelodau na chafodd y Cyngor llawn y cyfle i drafod y Cynllun yn ei gyfanrwydd cyn iddo gael ei anfon ymlaen at yr Arolygydd.
- Bod yr Adran Gynllunio yn gweithio yn erbyn unigolyn lleol sy'n dymuno codi tai fforddiadwy ar gyfer eu teuluoedd eu hunain, ond yn fwy na pharod i gefnogi datblygiadau o 200-300 o dai.
- Bod y system bwyntiau tai cymdeithasol yn gweithredu yn erbyn siaradwyr Cymraeg cynhenid.
- Bod pobl ifanc Cymraeg yn symud o'r pentrefi oherwydd prinder gwaith a bod angen i'r polisïau cynllunio hwyluso cadw pobl ifanc yng nghefn gwlad.
- Bod angen gwell monitro ar y sefyllfa er tegwch i'r bobl ifanc yn y cymunedau gwledig.

Gofynnwyd a oedd modd dod â'r cynnig a'r gwelliant at ei gilydd drwy ymrwymo i adeiladu ar y fethodoleg asesiad iaith sydd yna'n barod drwy weithio gyda mudiad sy'n arbenigo mewn cymdeithaseg iaith, e.e. y Brifysgol, mudiadau iaith, ayb, gan hefyd gymryd y cyfle i ymgynghori'n eang ar ddatblygiad y fethodoleg yma gyda mudiadau ac unigolion lleol sydd â diddordeb.

Gwahoddwyd cynigydd y cynnig gwreiddiol a chynigydd y gwelliant i uno'r cynnig a'r gwelliant ar hyd y llinellau hyn, ond mynegodd y ddau eu dymuniad i gadw'r cynnig a'r gwelliant ar wahân.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid: (13)** Y Cynghorwyr – Craig ab Iago, Lesley Day, Dyfed Edwards, Thomas Ellis, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, John Wynn Jones, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, W.Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn a Hefin Williams.

**Yn erbyn: (34)** Y Cynghorwyr – Anwen Davies, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Aeron Jones, Aled Wyn Jones, Brian Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Dilwyn Morgan, W.Tudor Owen, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Gareth Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Yn atal: (0)**

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig gwreiddiol.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid: (43)** Y Cynghorwyr – Craig ab Iago, Anwen Davies, Lesley Day, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Sian Wyn Hughes, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, William Tudor Owen, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, Owain Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Yn erbyn: (1)** Y Cynghorydd – Louise Hughes.

**Yn atal: (2)** Y Cynghorwyr – Brian Jones a Sion Wyn Jones.

**PENDERFYNWYD o dderbyn mai dogfen fyw ymatebol ydyw asesiad iaith y Cynllun Datblygu Lleol, gofynnwn i'r Cyngor ymgynghori ar ffyrdd o gyfoesi monitro effaith y sefyllfa gynllunio bresennol ac arfaethedig ar y Gymraeg. Dylai hynny ddigwydd gyda defnydd llawn o ffigurau Cyfrifiad 2011 a hefyd gydag ystyriaeth o addasrwydd gwaelodol y nifer tai a phoblogaeth sy'n sail i'r cynllun.**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad ac i aelodau'r cyhoedd oedd yn bresennol i ddangos eu barn a'u cefnogaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.45am

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **12 MAI 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2015-16** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r Adroddiad i'r Cyngor Llawn** |
| **AWDUR** | **GERAINT OWEN**<br>**PENNAETH CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Adroddiad Gwella Blynyddol 2015 – 16 Cyngor Gwynedd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Gorffennaf 2015.

1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr eraill megis Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg.

1.3 Dylid pwysleisio nad adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor mo'r adroddiad hwn.

1.4 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill, bydd yr Arolygydd Cyffredinol yn nodi a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

1.5 Ym marn yr Archwilydd,

**Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd blaenoriaeth ac mae ganddo drefniadau rheoli ariannol cadarn ond mae rhai gwendidau yn ei drefniadau craffu.**

1.6 Mi fydd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn gan nodi'r prif bwyntiau.

1.7 Dyma'r tro cyntaf i Adroddiad Gwella Blynyddol gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

1.8 Bydd cyfle yn ystod y cyflwyniad i aelodau ofyn cwestiynau i swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn seiliedig ar yr Adroddiad.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Gwynedd

Cyhoeddwyd: Mawrth 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 216A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Sian Clark, Jeremy Evans, Fflur Jones a Nigel Griffiths o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno**

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd blaenoriaeth ac mae ganddo drefniadau rheoli ariannol cadarn, ond mae rhai gwendidau yn ei drefniadau craffu 6

Argymhellion 6

**Adroddiad manwl**

Perfformiad

Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau gwella 9

Y defnydd o adnoddau

Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ac mae mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol 13

Gweledigaeth a Llywodraethu

Mae gweledigaeth Ffordd Gwynedd y Cyngor yn dechrau newid diwylliant y Cyngor ond ceir gwendidau o ran craffu 15

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 21

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16 23

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Gwynedd (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod.

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Defnydd o Adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru: Asesiad Cydnerthedd Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad o'r 'Cynllun Gwella' | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad o'r 'Asesiad o Berfformiad' | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad Craffu | Adolygiad o effeithiolrwydd prosesau craffu'r Cyngor. |
| Gweledigaeth a Pherfformiad Swyddfa Archwilio Cymru: Y diweddaraf am ffordd Gwynedd | Y diweddaraf am brosiectau Ffordd Gwynedd. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Asesiad o Berfformiad | Asesiad o berfformiad mewn perthynas ag amcan gwella Iaith Gymraeg y Cyngor, er mwyn deall a yw adroddiadau cyhoeddus y Cyngor ar ei berfformiad yn deg a chytbwys. |
| Rheoli Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru: Meincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad | Adolygiad ledled cynghorau'r Gogledd er mwyn ymchwilio i werth dangosyddion perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol cyfredol a'r cysylltiadau, os o gwbl, â chostau. |
| AGGCC: Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2014-15 | Asesiad o berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Gwaith dilynol | Asesu a oes gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar waith ar gyfer ymateb i adroddiadau, olrhain y modd y caiff argymhellion eu gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar hyn i'r pwyllgor priodol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiadau cenedlaethol | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau diogelwch cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wella yn ei feysydd blaenoriaeth ac mae ganddo drefniadau rheoli ariannol cadarn, ond mae rhai gwendidau yn ei drefniadau craffu

6 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliant yn ystod 2016-17. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau gwella ac wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009;

b mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ar y cyfan ac mae mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol; ac

c mae gweledigaeth Ffordd Gwynedd y Cyngor yn dechrau newid diwylliant y Cyngor ond ceir gwendidau o ran craffu.

## Argymhellion

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill a gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

9 Yn ogystal, nododd AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn www.cssiw.org.uk, www.estyn.llyw.cymru a www.comisiynyddygymraeg.cymru.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau gwella

### Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

10 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Ngwynedd yn is na chyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso'r perfformiad yn yr awdurdod.

11 Mae perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosydd y pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 wedi gwella'n fras yn unol â dangosyddion y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

12 Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn nangosydd y pwnc craidd[1] wedi gwella ar gyfradd debyg i gyfartaledd Cymru. Ar gyfer y dangosydd hwn, Gwynedd fu'r awdurdod a berfformiodd orau yng Nghymru am y pedair blynedd diwethaf.

13 Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion ym mhob dangosydd bron yn dangos tuedd raddol o wella dros amser. Mae'r perfformiad mewn gwyddoniaeth a Chymraeg yn arbennig o gryf ac yn cymharu'n ffafriol â lefelau mewn awdurdodau lleol tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella'n dda dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2015, roedd perfformiad yn y mesur hwn ychydig islaw'r meincnod ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Dengys perfformiad yn nangosydd y sgôr pwyntiau wedi'i chapio welliant graddol dros y tair blynedd diwethaf ac yn 2015 mae uwchlaw'r meincnod ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

14 Yn 2015, mae disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim wedi cyflawni'n well na disgyblion tebyg yng Nghymru ym mhob dangosydd allweddol bron yng nghyfnod allweddol 4.

15 Mae presenoldeb yn ysgolion Gwynedd ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Er bod y duedd o ran presenoldeb cyffredinol wedi bod yn fwy amrywiol mewn ysgolion cynradd, bu gwelliant cyson o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd dros y pum mlynedd diwethaf.

### Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson i wella gwasanaethau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer newidiadau i ddod

16 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014/2015 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi gwerthusiad AGGCC o'r Cyngor.

17 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson i wella gwasanaethau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer newidiadau i ddod. Mae gan y cyngor weledigaeth i gefnogi pobl yn eu cymunedau mewn ffyrdd creadigol, hyblyg a chosteffeithiol a gwella'r profiadau a'r dewisiadau i bobl ag anghenion cymhleth. Mae'r Cyngor wedi

1 Mae **dangosydd y pwnc craidd** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel y disgwylir iddynt ei chyflawni mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i lefel 4 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 5 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3.

dechrau datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar hyn ac egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae ymgysylltiad a chefnogaeth well y bwrdd iechyd yn amlwg, gan ei fod wedi rhwystro dabtlygiad yn y gorffennol.

18 Mae'r perfforiad mewn rhai o feysydd gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn gwella'n gynyddrannol o flwyddyn i flwyddyn, a cheir meysydd cadarn o ymarfer a chanlyniadau da, fel y rhai ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bu'r newid o ran dylunio gwasanaethau yn araf mewn meysydd eraill, fel gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a strategaeth llety i oedolion.

19 Bydd y newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau cymdeithasol yn galw am newidiadau mewn arfer a diwylliant sefydledig. Mae natur a graddfa'r newidiadau a wynebir gan wasanaethau cymdeithasol yn creu risgiau sylweddol sy'n galw am lefel uchel o arweinyddiaeth a chymorth i'w cyflawni mewn ffordd amserol. Dylai'r trefniadau newydd gydag aelod o'r cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd ac aelod o'r cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc ddarparu cysylltiad cliriach â'r datblygiadau newydd i wasanaethau, a'r broses o ymgysylltu â'r bwrdd iechyd.

20 Mae'r Cyngor wedi perfformio'n gadarn o ran gweithredu gofynion Mwy na Geiriau[2] - y fframwaith ar gyfer yr iaith Gymraeg.

21 Fel rhan o waith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru ar draws y chwe Chyngor yn y Gogledd, gwnaethom lunio dogfen i'r Cyngor a oedd yn cyflwyno'r canlynol:

a y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd drwy feincnodi amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer plant a phobl hŷn; a

b chyfres o ddadansoddiadau ar ffurf graff a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd dros sawl blwyddyn ac a oedd hefyd yn gosod y Cyngor yng nghyd-destun y 21 cyngor arall yng Nghymru.

22 Nid oedd unrhyw argymhellion na chasgliadau o'r gwaith hwn gan ein bod wedi rhoi pecyn data i bob Cyngor a oedd yn dangos y wybodaeth o safbwynt gwerth am arian a hwyluso gweithdy ar gyfer y Gogledd i gyd i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch reolwyr allweddol. Cawsom adborth cadarnhaol ar yr allbwn ac rydym yn aros i weld sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r dull gweithredu hwn fel rhan o'i brosesau herio mewnol.

2 Cyhoeddwyd **Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol** yn 2012 gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal ac y cynigir gwasanaethau yn Gymraeg i'r bobl hynny sydd eu hangen.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009

23 Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009 a chyhoeddwyd tystysgrifau cydymffurfio ar gyfer Cynllun Strategol y Cyngor a'i Adroddiad ar Berfformiad ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2015.

24 Mae adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad yn deg a chytbwys ar y cyfan. Cyflwynir y Cynllun Strategol a'r Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad yn glir ac maent yn rhoi darlun clir o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, y cynnydd y mae'n ei wneud a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chyfartaledd Cymru. Gallai'r Cyngor wneud mwy i gymharu ei berfformiad â chynghorau cyfagos. Mae crynodeb byr y Cyngor o'i berfformiad yn defnyddio graffeg atyniadol yn effeithiol i gyfleu negeseuon allweddol.

## Mae'r Cyngor yn ystyried argymhellion y rheoleiddwyr ond mae cyfle i ddefnyddio canfyddiadau yn fwy systematig a chyson i ategu gwelliant yn well

25 Er bod y Cyngor yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddwyr allanol, mae cryn amrywiad yn y ffordd y gweithredir ar yr argymhellion hyn ar draws gwasanaethau gwahanol.

26 Yn gyffredinol, pan nodir astudiaethau cenedlaethol, mae'r Cyngor yn asesu a yw argymhelliad yn cael effaith a budd lleol. Os felly, caiff adroddiadau eu cofnodi a chyfrifoldebau eu nodi er mwyn gweithredu ar yr argymhellion. Fodd bynnag, ni nodir pob adroddiad ac fel y cyfryw, mae'n bosibl na chaiff pob argymhelliad ei asesu a'i gofnodi yn y ffordd hon.

27 Caiff yr argymhellion hynny a nodir ac a gydnabyddir yn rhai sy'n cael budd yn lleol eu cynnwys mewn cynlluniau busnes adrannol lle y bo'n briodol fel bod y camau gweithredu yn llifo drwy'r dulliau gweithredu presennol, yn hytrach na chael eu hychwanegu at brosesau sefydledig. Fodd bynnag, nid oes ffordd ffurfiol o fonitro'r camau hyn y mae gwasanaethau'n eu cymryd i fynd i'r afael ag argymhellion neu effaith y camau gweithredu hyn.

28 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn cael adroddiadau gan bob rheoleiddiwr ac awgrym hefyd gan swyddogion ynghylch p'un a weithredwyd ar yr argymhellion ai peidio. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen atgyfnerthu'r modd y cyflwynir tystiolaeth i gadarnhau pa gamau gweithredu a gymerwyd i alluogi Aelodau'r Pwyllgor Archwilio i asesu a yw'r canlyniad bwriadedig wedi ei gyflawni ai peidio.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir ond gallai ddweud mwy wrth y cyhoedd am gynnydd yn ei adroddiad blynyddol

29 Cyflwynodd y Cyngor, wedi ei gymell gan y gostyngiad yng nghyfran poblogaeth y sir sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd yr adroddwyd arno yn nata'r Cyfrifiad Cenedlaethol, amcan gwella i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r amcan gwella 'Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg' yn cefnogi thema 'Cymunedau Cryfach' y Cyngor yn ei Gynllun Strategol 2013-17. Yn ystod 2014-15, cynhaliwyd nifer o brosiectau gyda'r nodau o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc a chynnal y lefelau defnyddio o fewn cymunedau ledled Gwynedd.

30 Gan fod data o'r Cyfrifiad Cenedlaethol ond ar gael bob 10 mlynedd, mae'r Cyngor wedi cymryd camau adeiladol i ddatblygu nodau penodol a mesuradwy drwy sefydlu llinellau sylfaen y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd.

31 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai o'r prosiectau o dan yr amcan gwella hwn yn uchelgeisiol iawn, yn enwedig o gofio lefel yr ymgysylltiad allanol a'r ymrwymiad sydd ei hangen i'w cyflawni. Mae'r Cyngor yn credu ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn ffynnu yn y sir ac mae'n falch iawn o lefel uchel y siaradwyr Cymraeg sydd, yn draddodiadol, wedi byw o fewn ei ffiniau. Fel y cyfryw, cred y Cyngor mai'r targedau ymestyn hyn yw'r dull gweithredu cywir a'r ymrwymiad cywir i'w wneud i'w ddinasyddion yn y maes hwn.

32 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mawr o ran ei Brosiect Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd gyda 97 y cant o ysgolion cynradd (94 allan o 97) yn llwyddo i ennill gwobr Arian neu Efydd y Siarter Iaith a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg ar yr iard chwarae. Cydnabuwyd bod y prosiect yn arfer da a chaiff ei gyflwyno ym mhob ysgol Gymraeg yn y Gogledd erbyn diwedd 2016 ac i weddill Cymru erbyn diwedd 2017.

33 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi gwneud llai o gynnydd mewn meysydd eraill. Cafwyd rhywfaint o lithriant o ganlyniad i amgylchiadau anffodus nad oedd modd eu rhagweld, megis lleihad dros dro yng nghapasiti'r tîm bach a oedd yn gyfrifol am nifer o'r prosiectau. Mewn prosiect arall, gohiriwyd cyflwyno Prosiect Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i gynyddu cyfran y myfyrwyr blwyddyn 9 a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn yr un modd ag y gohiriwyd y cynllun gweithredu o Adroddiad Ymchwiliad Craffu'r Cyngor ar Addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae hyn bellach ar waith a gall y prosiect symud yn ei flaen.

34 Roedd cynnydd nifer o brosiectau yn dibynnu ar ymgysylltiad ac ymrwymiad partneriaid allanol a chymunedau. Mewn rhai achosion, cafodd y Cyngor anhawster i wneud cynnydd oherwydd y lefelau ymrwymo amrywiol a'r oedi a oedd y tu hwnt i'w reolaeth. Er enghraifft, ni chyflawnodd ei nod datganedig yn y Prosiect Cymraeg yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yn rhannol oherwydd tybiaethau ynghylch sefyllfa'r iaith mewn sefydliadau cyfagos yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor mewn sefyllfa well yn awr i wneud cynnydd, ac yn deall yr hyn y mae'n rhaid iddo ei wneud yn well.

35 Mae Adroddiad y Cyngor ar Berfformiad Blynyddol yn hysbysu'r cyhoedd am y cynnydd y mae wedi ei wneud yn erbyn ei amcanion gwella. Mae'r adroddiad yn rhoi darlun cywir o'i berfformiad llwyddiannus o dan yr amcan gwella hwn ond yn llai agored o ran y meysydd lle y gwnaed llai o gynnydd. Byddai mwy o fanylion yn ychwanegu at y darlun ac fel y cyfryw, gyda manylion ychwanegol, byddai'n ddarlun tecach a mwy cytbwys o berfformiad.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ac mae mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol

36 Ar 26 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa cyfrifyddu a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn.

### Mae gan y Cyngor fframwaith  effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol

37 Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol a reolir yn dda ar gyfer cynllunio ariannol. Mae ganddo weledigaeth a nodau cyffredinol clir, a gaiff eu cyfleu drwy Gynllun y Cyngor (2013-17). Prif amcan y Cyngor yw 'sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud'. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar 16 o amcanion gwella ar draws saith maes â blaenoriaeth; caiff yr amcanion hyn eu cyfleu'n glir yn y cynllun. Mae gan y Cyngor ddull cadarn ar waith o sicrhau bod amcanion gwella yn rhan ganolog o gynlluniau gwasanaethau a bod cyllidebau a chynlluniau arianol wedi'u pennu yn unol â chyflawni'r amcanion hyn. Mae'r Cyngor yn ystyried y cydbwysedd rhwng cyflawni amcanion a'r heriau ariannol datblygol y mae'n eu hwynebu yn gyson.

38 Mae'r Cyngor wedi pennu polisïau clir o ran trefniadau cynllunio ariannol. Mae wedi nodi cyfrifoldebau am bennu cyllidebau, eu monitro ac adrodd arnynt. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi ei gynnwys o fewn adroddiad cyllideb 2015-16 a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2015. Mae'r adran â'r teitl 'Y cynllun tymor canolig i fynd i'r afael â bwlch ariannol 2015-16 i 2017-18' yn amlinellu'r sefyllfa ariannol rhagamcanol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n cynnwys yr angen i gau'r bwlch o £53 miliwn y mae tua £34 miliwn ohono yn arbedion ychwanegol rhagamcanol wedi eu dadansoddi fel a ganlyn:

a cynlluniau effeithlonrwydd a gymeradwywyd eisoes gan y Cabinet o £13.6 miliwn;

b targed effeithlonrwydd ysgolion o £4.3 miliwn;

c arbedion effeithlonrwydd pellach o £6 miliwn; a

d thoriadau o £9 miliwn.

39 Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn diwygio'r cynllun tymor canolig i ymateb i amgylchiadau newidiol ac mae wedi nodi y bydd cynlluniau dilynol yn amcangyfrif y sefyllfa ar gyfer pedair blynedd (2016-17 i 2019-20). Gallai tynnu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig o brif adroddiad y gyllideb roi proffil uwch i'r cynllun, ei gwneud yn fwy eglur a phenodol a'i gwneud yn haws i'w adolygu.

40 Mae'r Cyngor yn rheoli ei risgiau sy'n gysylltiedig â'r gyllideb ac yn pennu'r cyfeiriad tymor canolig yn unol â ffeithiau hysbys ac yn gwneud tybiaethau cadarn. Mae prosesau ariannol a chynllunio corfforaethol wedi'u hintegreiddio ac maent yn cysylltu â threfniadau rheoli risg a strategaethau ehangach eraill.

41 Mae gan y Cyngor hanes da o nodi a chyflawni rhaglen arbedion. Er bod diffyg bach wrth gyflawni cynllun arbedion 2014-15, cyflawnodd y Cyngor ei gyllideb cyffredinol gyda thanwariant bach gan fod tanwariant ei wasanaethau wedi gwneud iawn am golli ei darged arbedion.

## Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor reolaethau ariannol effeithiol a fframwaith cadarn i adolygu a herio perfformiad ariannol

42 Dangosodd ein harchwiliad o'r cyfrifon fod y datganiad cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg a'u bod wedi cael eu paratoi'n briodol, gan ategu ein barn bod rheolaethau ariannol y Cyngor yn effeithiol.

43 Mae gan dîm arwain y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r heriau a'r risgiau ariannol sylweddol sy'n newid yn gyflym y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Mae gan y Cyngor drefniadau adrodd cynhwysfawr, prosesau ffurfiol ac anffurfiol, i adolygu a herio perfformiad ariannol. Mae ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor yn rhan allweddol o waith y Pwyllgor Archwilio, lle mae systemau herio yn gadarn ac effeithiol. Mae'r sylfaen Aelodau ehangach yn llwyr werthfawrogi'r sefyllfa gyllidebol a sicrhawyd drwy ymwneud â'r broses o bennu cyllidebau.

44 Mae ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion cyllidebol wedi bod yn arbennig o gryf eleni. Rhoddwyd y darlun llawn am sefyllfa ariannol y Cyngor i'r cyhoedd a gofynnwyd y cwestiwn anodd ynghylch ble y dylid gwneud arbedion. Ymatebodd dros 2,100 o bobl i'r ymgynghoriad, yn bennaf ar-lein drwy wefan y Cyngor.

45 Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth ariannol gadarn ar lefel swyddogion ond, er bod y capasiti o fewn y gwasanaeth cyllid yn parhau i fod yn ddigonol, gallai fod yn her i'w gynnal ar y lefel gywir yn y tymor hwy.

# Gweledigaeth a Llywodraethu

## Mae gweledigaeth Ffordd Gwynedd y Cyngor yn dechrau newid diwylliant y Cyngor ond ceir gwendidau o ran craffu

### Mae gweledigaeth Ffordd Gwynedd y Cyngor yn dechrau newid diwylliant y sefydliad ac yn sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud

46 Mae a wnelo rhaglen Ffordd Gwynedd y Cyngor â sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'n rhaglen sy'n trawsnewid busnes ac yn rhaglen o newid diwylliannol/ymddygiadol. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gwerth a grëir i bobl y sir, mae'r Cyngor yn ystyried popeth a wna drwy lygaid ei ddinasyddion yn hytrach na thrwy lygaid ei staff. Mae'n amlwg nad oes a wnelo Ffordd Gwynedd â bodloni dymuniadau pawb ond â chreu diwylliant sy'n sicrhau bod pobl yn ganolog i bopeth a wna a phennu'r amodau cywir a chwalu'r rhwystrau er mwyn gwireddu hyn.

47 Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi pennu nifer o egwyddorion, sef:

- a **arweinyddiaeth** sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd y rhaglen ac sy'n cynnal y weledigaeth;
- b **rheolwyr** yn y gwaith sy'n grymuso ac yn paratoi staff i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a chwalu rhwystrau;
- c **staff** a gaiff eu grymuso i weithio'n hyblyg i fynd i'r afael ag anghenion cwsmeriaid a manteisio ar gyfleoedd i ddileu'r galw am wasanaethau;
- ch trefniadau **ymgysylltu** addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir o ran yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd a blaenoriaethu ein hadnoddau;
- d **fframwaith perfformiad** sy'n mesur a yw'r Cyngor yn diwallu'r anghenion ac yn cynnig gwerth am arian;
- dd trefniadau **llywodraethu** sy'n seilio penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn;
- e trefniadau **darparu gwasanaethau** sy'n creu gwerth i'r cwsmer;
- f **polisïau** sy'n hyrwyddo'r nod o ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn hytrach na chreu rhwystrau; a
- ff threfniadau **cyflogaeth** sy'n paratoi staff ac sy'n atgyfnerthu ymddygiadau er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud.

48 Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o brosiectau er mwyn helpu i gyflawni Ffordd Gwynedd, ac mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant i reolwyr a staff a gwasanaeth ymgynghori dewisol er mwyn helpu i ddileu prosesau gwastraff mewn meysydd gwasanaeth penodol.

49 Grŵp Dysgu a Datblygu'r Cyngor sy'n gyfrifol am integreiddio Ffordd Gwynedd yn y cyrsiau hyfforddi a ddarperir ar gyfer swyddogion. Mae gweledigaeth Ffordd Gwynedd yn gymharol hawdd i'w chyfleu ac yn hawdd uniaethu â hi, gan roi ffocws da i reolwyr yn y dyfodol. Mae pob rheolwr wedi cael yr hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, mae'n anoddach ei hymgorffori a'i rhaeadru i swyddogion yn y gwasanaethau gweithredol hynny sy'n tueddu i fod yn anoddach i'w cyrraedd. Mae llawer, fel staff mewn cartrefi gofal, yn teimlo eu bod eisoes yn rhoi'r dinesydd yn y canol ac yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar holl egwyddorion amrywiol Ffordd Gwynedd. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r heriau sy'n ei wynebu ac yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r rhain.

50 Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r meddylfryd systemau[3] i ddechrau newid ei fodel cyflawni o'r cynllun gorchymyn a rheoli traddodiadol. Mae hyn yn dileu camau prosesau nad ydynt yn ychwanegu gwerth ac yn herio'r rheolau y gweithredant ynddynt. Mae gan y Cyngor bum prosiect system ar waith mewn rhannau gwahanol amrywiol o'r busnes. Mae enghreifftiau'n cynnwys y swyddogaethau eiddo a chynllunio lle bu ymrwymiad da gan y staff. Mae'r dull systemau wedi datblygu ar sail diwylliant hyfforddi adrannau a bu newid cadarnhaol ym meddylfryd y staff wedi'i ategu gan ganlyniadau ymarferol da. Gall yr enghreifftiau da hyn gael eu rhannu bellach ag adrannau eraill o'r adran a'r Cyngor yn fwy cyffredinol gan helpu i roi mwy o gefnogaeth i werth Ffordd Gwynedd a darparu momentwm i sicrhau newid pellach.

51 Gwnaeth y Cyngor hefyd gymhwyso'r dull systemau at un o'i unedau cefnogaeth canolog. Mae gan yr uned hon rôl i'w chwarae mewn nifer o brosesau, ond nid yw'n rheoli'r prosesau cyflawn, er enghraifft, mae'n derbyn ceisiadau recriwtio ac yn gwirio hawliadau teithio staff ond nid yw'n cwblhau'r broses gyfan ar gyfer y naill na'r llall. Er bod y Cyngor wedi elwa ar y dull systemau, mae wedi sylweddoli nad edrych ar weithgarwch unedau yn hytrach na swyddogaethau o un pen i'r llall yw'r dull gweithredu gorau. Hefyd mae mesurau wedi bod yn anodd eu pennu gan ei bod yn anodd effeithio ar y broses gyfan. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn defnyddio datrysiad TG sy'n galluogi'r chwaraewyr amrywiol mewn proses i gyfleu a chadw golwg ar gynnydd prosiectau. Ar lefel uchel roedd hyn yn edrych fel adnodd gwerthfawr iawn.

52 O blith prosiectau systemau'r Cyngor, Ysbyty Alltwen sydd â'r proffil uchaf, lle caiff gweithwyr cymdeithasol eu cyd-leoli â staff iechyd ac maent yn cyflawni gwasanaeth integredig i ddinasyddion. Nod y cysyniad yw dwyn ynghyd weithwyr cymdeithasol, tîm iechyd yr ysbyty a nyrsys ardal yn yr ardal (Dwyfor). Mae a wnelo Alltwen ag integreiddio a dadansoddiad a rennir o angen defnyddwyr

3 Mae dull meddylfryd systemau **Vanguard** yn helpu sefydliadau gwasanaethau i newid o gynllun 'gorchymyn a rheoli' confensiynol i gynllun systemau.

gwasanaethau gan ddefnyddio sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig' gyda'r defnyddiwr gwasanaethau a chyfarfod dull 'powlen pysgod' gyda gweithwyr proffesiynol o'r ddau sefydliad yn dilyn hyn er mwyn pennu'r gwasanaethau gorau i fodloni canlyniadau a ddymunir y defnyddwyr gwasanaethau.

53 Y prosiect hwn yw'r un mwyaf cymhleth y mae'r Cyngor wedi ymwneud ag ef o bell ffordd. Ar hyn o bryd, mae'n wynebu nifer o rwystrau. Mae'r rhain yn cynnwys y gwahaniaethau rhwng y ffordd y mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu (er enghraifft, mae iechyd yn cynnal sifftiau 12 awr dros gyfnod o saith diwrnod gan gynnwys sifftiau nos, ond mae staff gofal cymdeithasol yn gweithio diwrnodau'r wythnos fel arfer yn ystod y dydd) a'r oedi cyn ad-leoli staff nyrsio ardal. Tra'n sicrhau ei fod yn diogelu oedolion agored i niwed yn yr ardal, mae angen i'r Cyngor ystyried y camau nesaf ar gyfer y prosiect penodol hwn, beth yw'r ffordd orau iddo adeiladu ar y cyfarfodydd positif diweddar gyda'r Bwrdd Iechyd, a sut y gall fanteisio ar yr hyn a ddysgir a'i roi ar waith mewn lleoliadau eraill.

## Er i'r Cyngor roi rhai gwelliannau i'r broses graffu ar waith yn ddiweddar, mae'n parhau i fod yn aneffeithiol mewn nifer o feysydd allweddol

### Mae diffyg dealltwriaeth a rennir a chydnabyddiaeth o ddiben, gwerth a chyfrifoldebau craffu

54 Mae dryswch ac amheuaeth yn gyffredinol ymhlith swyddogion ac aelodau ynghylch rôl a gwerth craffu o fewn y Cyngor - y mae llawer ohono'n seiliedig ar y newidiadau i nifer a chyfrifoldebau pwyllgorau craffu a gyflwynwyd yn 2012. Er i'r newidiadau gael eu cynllunio a'u gweithredu'n dda, nid ydynt, yn gyffredinol, wedi arwain at y gwelliannau disgwyliedig i'r broses graffu.

55 Mae'r diffyg hyder o ganlyniad i hynny wedi creu rhwystrau i effeithiolrwydd rhai o feysydd allweddol craffu ac, felly, gallu'r pwyllgorau craffu i gefnogi gwelliant o ran proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor ac ansawdd ei wasanaethau. Ceir teimlad ymhlith Aelodau fod y gwaith craffu yn cael ei esgeuluso a'i wahanu oddi wrth lawer o feysydd pwysig gan gynnwys datblygu polisi a herio a monitro perfformiad gwasanaethau.

56 Gwnaed ymdrechion i wella amlder y cyswllt rhwng uwch swyddogion, aelodau'r Cabinet a'r pwyllgor craffu. Er gwaethaf y potensial, rhaid i'r cyfarfodydd hyn hwyluso prosesau craffu mwy rhagweithiol, ni chânt eu cynnal yn rheolaidd ac yn aml cânt eu canslo ar fyr rybudd.

### Ceir nifer o wendidau o ran trefniadau craffu

57 Mae pwyllgorau craffu yn defnyddio meini prawf cadarn wrth ddewis a blaenoriaethu eitemau ar gyfer eu blaenraglenni gwaith, ond ni chânt eu cymhwyso'n gyson ac mae diffyg ystyriaeth o'r adnoddau sydd ar gael. Ni chynhelir cyfarfodydd yn ddigon aml i alluogi aelodau i roi ystyriaeth ddigonol i eitemau pwysig ar yr agenda ac amrywiol yw cyfraniad cyfarfodydd ymlaen llaw i effeithiolrwydd y broses graffu.

58 Er gwaethaf ymdrechion diweddar i annog aelodau o'r Cabinet i ymgysylltu'n well â'r broses graffu, mae bwlch a diffyg cydweithredu o hyd rhwng yr agendâu a gwaith y Cabinet a'r pwyllgorau craffu. Mae prinder manylion ym mlaenraglen waith y Cabinet yn ei gwneud yn anodd i bwyllgorau craffu nodi, ymlaen llaw, y meysydd y dylent ganolbwyntio arnynt. Hefyd, gan fod cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cynnal yn amlach o lawer na chyfarfodydd y pwyllgorau craffu, dim ond cyfleoedd cyfyngedig sydd i'r pwyllgorau craffu ddarparu mewnbwn a her i lawer o feysydd busnes y Cabinet.

59 Nid yw adroddiadau gan gyrff rheoliadol yn cael eu cynnwys yn gyson ym mlaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu'r Cyngor. Yr arfer cyfredol yw bod swyddogion cymorth craffu yn cyfeirio rhai o'r adroddiadau gan Estyn, AGGCC, a Swyddfa Archwilio Cymru i'r pwyllgor priodol i'w cynnwys yn eu rhaglenni. Yn gyffredinol, ceir diffyg brwdfrydedd hefyd dros yr hyn y gall adroddiadau rheoleiddwyr ei ychwanegu at brosesau craffu a diffyg gwerthfawrogiad o'u gwerth.

60 Mae'r rhan fwyaf o'r papurau a gyflwynir i bwyllgorau craffu o ansawdd rhesymol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwyd yn cynnwys deunydd ystadegol cymhleth ac yn gwneud tybiaethau ynghylch lefel gwybodaeth aelodau mewn maes gwasanaeth penodol. Mae rhai o'r papurau hefyd yn defnyddio acronymau heb unrhyw esboniad ategol.

61 Mae rhai agweddau ar gyfarfodydd craffu, fel cyfraniadau swyddogion ac aelodau'r Cabinet, yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd eraill yn llai effeithiol. Mae meysydd gwannach yn cynnwys diffyg ffocws ar gwestiynu a holi treiddgar wrth ddwyn Aelodau'r Cabinet i gyfrif a dim digon o ddealltwriaeth o faterion allweddol wrth lunio argymhellion y bwriedir iddynt arwain at welliannau cyflawnadwy a mesuradwy.

62 Mae ymchwiliadau craffu fel arfer wedi'u llunio'n dda ac yn gadarn ond mae eu cwmpas cyffredinol a'r diffyg adnoddau yn aml yn arwain at golli momentwm, oedi cyn cyflwyno adroddiadau terfynol a dull anodd o ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Nid oes digon o ymwybyddiaeth o effaith craffu a all danseilio ei ddiben bwriadedig o gyfrannu at welliannau i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd

63 Nid yw'r Cyngor yn gwneud fawr ddim gwaith dadansoddi nac asesu o effaith pwyllgorau craffu ar, er enghraifft, benderfyniadau'r Cabinet ac effaith gwaith pwyllgorau craffu ar wella gwasanaethau. Heb broses werthuso ac adrodd ffurfiol, nid yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn cyflawni'r amcanion gwella 'penderfyniadau gwell' a 'gwasanaethau gwell' yn y Strategaeth Graffu.

64 Gall dull derbyn y Cabinet o holl argymhellion y pwyllgorau craffu a gofnodir fod yn gamarweiniol ac mae'n cyfrannu at yr ansicrwydd ynghylch effaith pwyllgorau craffu ar benderfyniadau a gwelliannau i wasanaethau. Fodd bynnag, er bod y Cabinet yn derbyn holl argymhellion y pwyllgorau craffu, dim ond rhai y mae'n eu rhoi ar waith. Er nad oes rhwymedigaeth ar y Cabinet i dderbyn holl argymhellion y pwyllgorau craffu, mae rhai Aelodau yn rhwystredig nad ydynt yn cael unrhyw adborth i egluro pam na roddwyd eu hargymhellion ar waith. Yn ddiweddar, mae Aelodau'r Cabinet wedi cytuno i ailystyried eu dull o ymateb i argymhellion y pwyllgorau craffu.

65 Mae blaenraglenni craffu yn gyson yn cynnwys y diweddaraf am gynnydd rhoi argymhellion a wnaed ar waith yn dilyn ymchwiliadau craffu.

## Nid yw rôl y Cyngor wrth gynnal a chadw'r rhwydwaith o gefnffyrdd ledled y Gogledd a'r Canolbarth yn ddigon tryloyw ac nid yw'r cyhoedd yn gallu cael gafael yn hawdd ar wybodaeth berthnasol

66 Gwnaethom ysgrifennu at y Cyngor ym mis Tachwedd 2015 mewn ymateb i bryderon gan un o drigolion Gwynedd. Wrth ystyried pryderon yr unigolyn hwn, canfuwyd nad oedd agweddau ar y trefniadau llywodraethu a oedd yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw'r rhwydwaith o gefnffyrdd yng Ngwynedd yn glir i'r cyhoedd. Mae'r casgliad hwn yn gyson ag argymhelliad i Lywodraeth Cymru a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2015, sef, '...bod atebolrwydd ar gyfer cynllunio a chyflawni mân gynlluniau gwella drwy Asiantau Cefnffyrdd a'u hawdurdod lleol a phartneriaid sefydliadol eraill yn cael ei egluro ac y rhoddir cyhoeddusrwyddd i hynny er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ei ddeall yn glir.'

67 Y Cyngor yw'r Asiant sy'n atebol i Lywodraeth Cymru am weithredu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Y Cyngor hefyd yw'r awdurdod arweiniol o fewn y bartneriaeth o wyth cyngor yn y Gogledd a'r Canolbarth a rhyngddynt maent yn cyflawni neu'n caffael y gwaith ar gefnffyrdd y rhanbarth. Mae Cytundeb Asiantaeth yn sail i rôl y Cyngor fel Asiant, tra bod Cytundeb Partneriaeth rhwng yr wyth cyngor yn nodi sut y byddant yn cyflawni'r Cytundeb Asiantaeth gyda'i gilydd. Mae Cyd-bwyllgor yn cynnwys cynghorwyr o bob awdurdod yn cyfarfod o bryd i'w gilydd, fel y nodir yn y Cytundeb Partneriaeth, ond ni chaiff gweithrediadau na chofnodion y Cyd-bwyllgor eu cyhoeddi.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Dilwyn Williams
Y Cynghorydd Dyfed Wyn Edwards
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

Annwyl Dyfed a Dilwyn

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Gwynedd 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon (ar gyfer y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn) i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 24 Medi 2015. Nid oes angen i mi ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

Mae'n werth nodi hefyd fod y Cyngor wedi arwain y gwaith o baratoi cyfrifon y Cyd-bwyllgor GwE a'i fod hefyd wedi paratoi Ffurflenni Blynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd.  Ar 30 Medi 2015:

- Rhoddais farn archwilio ddiamod ar gyfrifon GwE gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Pwyllgor.
- Cadarnheais fod y wybodaeth yn y ffurflenni blynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor AAA a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd yn unol ag arferion priodol.

Hysbyswyd y pwyllgorau perthnasol am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliadau hyn lle roedd yn briodol gwneud hynny. Unwaith eto, nid oes angen i mi ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

**Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau**

Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cwblhau'r archwiliad am fod mater heb ei benderfynu a oedd yn ymwneud â gwrthwynebiad a godwyd gan etholwr. Fodd bynnag, rwyf wedi cwblhau fy ngwaith ar y mater hwn ac wedi ymateb i'r etholwr gan nodi nad wyf yn bwriadu cymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol pellach.

Gan na fu unrhyw newidiadau i'r cyfrifon ers i mi roi fy marn ar 30 Medi 2015, rwyf yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio ystyried fy adroddiad terfynol ac ailgymeradwyo'r cyfrifon. Rwy'n disgwyl i hyn ddigwydd ar ddechrau mis Rhagfyr 2015.

**Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol**

Mae fy rhaglen o waith archwilio ar hawliadau grant 2014-15 ym mynd rhagddi ar hyn o bryd. Hyd yma nid wyf wedi nodi unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yng Nghynllun Archwilio 2015.

Yn gywir

**Derwyn Owen**
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; ac<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd - y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br><br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br><br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br><br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br><br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br><br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol. |

Tud. 51

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru | A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; a<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol.<br><br>A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br><br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad consortia.<br>Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia yn cael eu darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd (mae gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd.<br><br>A2 Canolbwyntio ar ganlyniadau drwy waith cynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod ffocws ar gamau gweithredu byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu consortia rhanbarthol effeithiol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Gan na chaiff unrhyw raglen bosibl i ad-drefnu awdurdodau lleol ei rhoi ar waith yn llawn tan 2020, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu consortia rhanbarthol ymhellach, pennu eu cwmpas a'u cyllid, wedi'u cysylltu ag amcanion strategol priodol. |

Tud. 52

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A3 | Datblygu cydberthnasau mwy cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion.<br>Cyfrannodd llawer o bartneriaid gwella ysgolion at y gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond nodwyd gennym nad oedd hyn wedi arwain at ddatblygu cydberthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arfer a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o fynd i'r afael â mater neu gallai fod ganddo gyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu polisi).<br>• Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod cyd-ddibyniaeth yr holl bartneriaid wrth gyflawni eu rolau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o wneud y canlynol:<br>– rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n ymwneud â gwella ysgolion ac ymgynghori yn eu cylch;<br>– datblygu cydberthnasau cydweithredol sy'n seiliedig ar atebolrwydd a rennir; ac<br>– chynnal adolygiadau system gyfan a chysoni'r ddealltwriaeth o gonsortia rhanbarthol a sefyllfa consortia rhanbarthol ym mhob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru. |
| | | A4 | Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r dalent orau.<br>Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru oll wedi'i chael hi'n anodd recriwtio uwch arweinwyr ar gyfer addysg a nodwyd gennym nad oes fawr ddim wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithredu i wneud rolau arwain ym maes addysg yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf talentog ar gyfer y system gwella ysgolion; a<br>• dylai awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 | Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol.<br>Er bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud, nodwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cwbl effeithiol eto (paragraffau 3.2 i 3.36). Felly, rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol wneud y canlynol:<br>• gwneud gwell defnydd o hunanwerthusiadau o'u perfformiad a'u trefniadau llywodraethu i ategu gwaith cynllunio busnes a'u hadolygiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella prosesau gwella perfformiad gan gynnwys gwella prosesau cynllunio busnes, defnyddio mesurau perfformiad clir a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau rheoli a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch cyllidebu, monitro ariannol ac adrodd yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys arian grant a gaiff ei wario drwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd y consortia yn gyffredinol yn ogystal â gwaith craffu perfformiad a wneir gan awdurdodau unigol, a all gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a threfniadau consortia yn agored ac yn dryloyw;<br>• adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a mynd i'r afael ag ef; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rolau a gyflawnir; ac<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A1 Gwella arweinyddiaeth gorfforol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc ac sydd â chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod diogelu arweiniol; ac<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd.<br>A2 Sicrhau bod polisi cwbl gorfforaethol ar ddiogelu sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynnig cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ym mhob rhan o'r Cyngor.<br>A3 Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr mewn modd diogel drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfiaeth â pholisïau recriwtio'n ddiogel yn cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system cydymffurfiaeth gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; ac<br>• gofyn am arferion recriwtio'n ddiogel ymhlith partneriaid yn y trydydd sector ac ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor a ategir gan gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff a phob aelod a phartner perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod ei gwmpas yn cael ei ymestyn i gynnwys holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel rhywbeth safonol mewn rhaglenni sefydlu;<br>• llunio system gwbl gorfforaethol i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiaeth o ran cael hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor ac ymhlith aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; ac<br>• mynnu bod staff perthnasol, mewn sefydliadau partner sydd wedi'u comisiynu i weithio i'r Cyngor drwy ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, yn cael hyfforddiant diogelu. |

Tud. 55

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A5 | Wrth ddiwygio'r canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol o ran rolau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig o fewn gwasanaethau addysg a'r unigolyn a enwir ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hyrwyddo diogelwch plant. |
| | | A6 | Gwella atebolrwydd am weithgarwch diogelu corfforaethol drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd i'r pwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor sy'n cynnwys y canlynol:<br>• meincnodi a chymariaethau ag eraill;<br>• casgliadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; ac<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor. |
| | | A7 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chynnal adolygiadau o gydymffurfiaeth o ran arferion diogelu'r Cyngor. |
| | | A8 | Sicrhau y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu plant eu hystyried ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chytuno arnynt ym mhob rhan o'r Cyngor. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â materion pobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn.<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; ac<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd.<br><br>A2 Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n cwmpasu gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i faes iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ac wrth ddatblygu blaenoriaethau a chytuno arnynt.<br><br>A3 Ymgysylltu'n well a phobl hŷn a gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei lledaenu iddynt drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol a'u bod yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu cael.<br><br>A4 Sicrhau y caiff perfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol eu rheoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; ac<br>• nodi mesurau i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith fel y gellir deall effaith toriadau cyllidebol a chefnogi gweithgarwch goruchwylio a chraffu. |

Tud. 57

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 | Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb drwy wneud y canlynol:<br>• nodi sut y bydd newidiadau i wasanaethau neu doriadau mewn cyllidebau yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gymerir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi nifer y bobl y gallai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt drwy nodi'r effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig; ac<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddeall yr effaith a gaiff newidiadau arfaethedig arnynt yn glir. |
| | | A6 | Gwella'r ffordd y rheolir y Gronfa Gofal Canolraddol a sicrhau ei bod yn cael mwy o effaith drwy wneud y canlynol:<br>• pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel y gellir barnu effaith y rhain dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel y gellir gwerthuso prosiectau a ariennir ar sail gyfatebol yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa rai sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a faint o gynlluniau sydd wedi'u prif ffrydio i gyllid craidd; ac<br>• ymgysylltu'n well â phob partner er mwyn sicrhau y caiff cymaint o bartneriaid â phosibl eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol ym maes gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• pennu gweledigaeth gytûn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor o fewn darpariaeth chwaraeon a hamdden y gymuned ehangach yn yr ardal; ac<br>• ystyried y potensial ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn nodi'r model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytûn a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden sy'n ystyried y canlynol:<br>• argaeledd cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i wella prosesau cynhyrchu incwm a lleihau 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• dadansoddi cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau y caiff barn ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; ac<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A3 Sicrhau y caiff perfformiad gwasanaethau hamdden eu rheoli'n effeithiol drwy nodi cyfres o fesurau i alluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleuster-benodol a chynnwys y canlynol:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• boddhad cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau/cyfleusterau, pryd y cawsant eu defnyddio, ac ati; ac<br>• effaith hamdden o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; ac<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Tud. 60

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **12 MAI, 2016** |
| **PWNC** | **Y REFFERENDWM AR AELODAETH O'R UNDEB EWROPEAIDD** |
| **PWRPAS** | **Ceisio safbwynt y Cyngor ar y mater** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor** |

1. Ar 23 Mehefin, fe gynhelir refferendwm ar p'un ai y dylai gwledydd Prydain aros yn yr Undeb Ewropeaidd neu beidio.

2. Yn amlwg bydd y mater yma yn un o bwysigrwydd mawr, ac eisoes, mae'r dadleuon o blaid ac yn erbyn yn cael eu hamlygu gan y ddwy ochr.

3. Gan fod gennym fel Cyngor ddyletswydd i arwain ein cymunedau a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'w drigolion, mae'n ddyletswydd arnom i drafod y mater pwysig yma ac i ddod i gasgliad a yw parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn beth da neu yn beth drwg i drigolion Gwynedd.

4. Un peth y mae pob ochr o'r ddadl yn gytun ag ef yw bod canlyniad y bleidlais yn un o'r materion pwysicaf y bydd gan drigolion y cyfle i fynegi barn arno am rai blynyddoedd ac mae annog cynifer ag sydd bosib o drigolion i bleidleisio o'r pwys mwyaf.

5. Mae'r dadleuon o blaid ac yn erbyn aros yn yr Undeb Ewropeaidd yn rhai eang sydd yn cael sylw amlwg yn y Wasg. Gellir eu crynhoi o dan y penawdau canlynol:-
   - Materion Defnyddwyr – Materion yn ymwneud â phrisiau, profion diogelwch a thrin cwsmeriaid yn deg, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar y budd o gael y gwarchodaeth a roddir a chost hynny i aelwydydd.
   - Cost Aelodaeth – Cost Aelodaeth ar y naill law a'r hyn yr ydym yn ei dderbyn yn ôl ar y llall, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar werth buddsoddiad Prydain yn yr Undeb o'i gymharu â'r budd a ddaw yn ôl.
   - Addysg ac Ymchwil – Sut mae aelodaeth yn effeithio addysg ac ymchwil meddygol, technegol a gwyddonol, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar fwriad yr Undeb i wario €80bn ar ymchwil rhwng 2014 a 2020.
   - Ynni a'r Amgylchedd – Argaeledd Ynni a sut y mae'r Amgylchedd yn cael ei warchod, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar y budd o weithio tuag at sefydlu marchad ynni integredig a mwy o reolaeth o Ewrop ar newid hinsawdd a llygredd
   - Amaeth a Physgota – Effaith yr Undeb a'i bolisiau amaethyddol a physgota, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar fudd y Polisiau Cyffredin a'r sybsidi a roddir i amaeth yn benodol.
   - Rôl Byd Eang Prydain ac Amddiffyn – Amddiffyn a chryfder safle Prydain fel gwladwriaeth yn y byd, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar rôl gynyddol Ewrop mewn polisi tramor.
   - Mewnfudo – Mater mewnfudo a'r rhyddid i symud ar draws yr Undeb, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar effaith aelodaeth o'r Undeb ar y gallu i reoli mewnfudo.

- Plismona a Diogelwch – Plismon a  Diogelwch ar draws ffiniau, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar hyn gan gofio nad yw Prydain yn rhan o ardal teithio heb ffiniau Schengen
- Sofraniaeth a Chyfreithiau – Y graddau y mae Prydain yn gwneud ei gyfreithiau ei hun a sut y'i reolir, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar y graddau y mae'n rhaid i Brydain dderbyn deddfau a chyfarwyddiadau o Ewrop
- Masnach a'r Economi – Effaith aelodaeth yr Undeb ar Fasnach a'r Economi, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar effaith aros yn neu adael yr Undeb Ewropeaidd sydd yn cynrychioli tua hanner masnach Prydain
- Teithio a Byw Dramor – Byw a theithio mewn gwledydd eraill ar gyfer gwaith a hamdden, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar effaith aelodaeth ar ryddid unigolion i fyw a theithio yn rhydd drwy'r Undeb
- Gwaith a Chyflog – Effaith aelodaeth yr Undeb ar amodau gwaith a chyflogau, gyda'r ddau ochr yn gwahaniaethu ar rai hawliau gweithwyr sydd yn cael eu gorfodi o Ewrop

6. Yn amlwg, mae pwys i'r holl ffactorau hyn ond mae rhai o'r dadleuon sydd yn  arbennig o berthnasol i drigolion Gwynedd.

7. Yn gyntaf oll wrth gwrs, trethiant cyffredinol sy'n ariannu 73% o holl wasanaethau'r Cyngor, a chan ffod yr arian hwnnw yn ddibynol ar gryfder yr economi, mae'r farn ynglyn â beth ddigwyddith i'r economi pe byddem yn tynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd yn un ffactor allweddol.  Gwyddom wrth gwrs sut effaith y mae'r wasgfa ariannol wedi ei gael ar wasanaethau i bobl Gwynedd hyd yma.

8. Rhaid nodi hefyd fod Cymru a Gwynedd yn benodol yn elwa'n sylweddol o gyllidebau strwythurol Ewrop (£1.8bn i Gymru yn y cyfnod 2014-2020); arian ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig (£490m i Gymru) a'r arian sydd hefyd yn dod i'r maes amaeth yn sgil y Polisi Amaeth Cyffredinol (tua £230m yn flynyddol).  Dros y blynyddoedd, mae Gwynedd wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus yn denu arian Ewrop. Ers troad y Mileniwm, denwyd gwerth £158 miliwn o arian grant Ewropeaidd i'r sir i ariannu drtos 120 o brosiectau allweddol i'n cymunedau. Rhwng 2007 a 2013 yn unig, bu arian Ewropeiadd yn cynorthwyo 1,475 o fusnesau i dyfu ac ymestyn, wedi cynorthwyo i sefydlu 560 o fusnesau newydd a 2,320 o swyddi newydd. Mae'r cyllid hefyd wedi cynorthwyo 12,000 o bobl Gwynedd i ennill cymwysterau ac wedi cynorthwyo 1,800 o bobl i ddychwelyd i'r gwaith. Wrth gwrs, y ddadl gan y rhai sy'n cefnogi gadael yw y byddai modd parhau i dalu'r symiau yma o'r arian y byddem yn ei arbed o gyfraniadau i Ewrop. Nid oes sicrwydd yn fy marn i y byddai hynny'n digwydd.

9. O ystyried y meysydd a nodwyd ym mharagraff 5 uchod, mae rhai yn amlwg yn cynnig eu hunain yn naturiol ar gyfer gweithredu ar lefel Ewropeaidd yn hytrach na gwladwriaethau unigol. Mae angen gweithio i ymateb i faterion fel yr argyfwng cynhesu byd-eang a'r ymgais i atal rhyfeloedd. Mae rôl yr Undeb Ewropeaidd yn allweddol yn hyn o beth.

10. Ar fater gwahanol, rhaid ystyried sefyllfa benodol Cymru fel rhan o batrwm llywodraethol Ewrop. Mae datganoli yn parhau ar ei thaith yma yng Nghymru, gyda'n Cynulliad Cenedlaethol yn derbyn mwy o rymoedd yn raddol. Mae mwyafrif gwledydd "newydd" Ewrop yn gweld eu dyfodol fel rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

11. Tra bod y drafodaeth ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ai peidio wedi canolbwyntio ar y materion a nodir ym mharagraff 5, credaf mai'r ystyriaeth bwysicaf yw ein hagwedd ni at y byd fel pobl ac fel cenedl. Wrth i'r byd fynd yn llai, wrth i ni weld mwy o anghyfartaledd yn y byd a bygythiadau newyn, cynhesu byd eang a rhyfel yn cynyddu, credaf fod angen cymuned o wledydd Ewropeaidd i gydweithio a chydymdrechu i ymateb i'r sefyllfaoedd hyn. Tra'n bod yn gweld ein hunain fel dinasyddion Cymru, rydym hefyd am weld ein hunain yn ddinasyddion Ewrop a'r byd

12. Mae werth nodi barn llywodraeth leol yng Ngymru. Mae Maniffesto Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi'n glir ei fod yn gryf o blaid aros yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd gan nodi tri prif bwynt sydd yn cefnogi hynny. O ran yr Economi a Ffyniant, mae'r Gymdeithas yn nodi y byddai Cymru yn cael ei daro'n waeth pe byddai Prydain yn gadael yr Undeb gan bod gwerth allforion o Gymru i'r Undeb yn 8% o werth economaidd i'r wlad, yr ail uchaf ym Mhrydain. Fe nodir hefyd bod Cymru yn elwa'n net o gyllid yr Undeb Ewropeaidd a, heb unrhyw bolisi rhanbarthol ystyrlon, nid oes unrhyw sicrwydd y byddai sefyllfa Cymru'n cael ei warchod pe byddai Prydain yn gadael yr Undeb. O ran Cymdeithas, mae'r Gymdeithas o'r farn bod deddfwriaeth Ewropeaidd ym meysydd yr amgylchedd, cydraddoldeb, cyflogaeth a iechyd yn cael effaith positif ar ansawdd bywyd trigolion yng Nghymru. Yn olaf, ar Ddiogelwch, mae'r Gymdeithas o'r farn bod y manteison a ddaw yn sgil aelodaeth o gydweithio ar draws ffiniau a gweithio yn ryngwladol gyda'n partneriaid yn gwneud ein gwlad yn fwy diogel.

13. Wedi pwyso a mesur y dadleuon o blaid ac yn erbyn, ac o ystyried ffactorau sydd yn fwy penodol i drigolion Gwynedd, 'rwyf o'r farn y byddai yn fwy o fudd yn deillio i drigolion Gwynedd o fod yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ac argymhellaf felly fod y Cyngor yma yn datgan mai dyna yw barn y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **12 Mai 2016** |
| **TEITL** | **DIWYGIADAU I'R COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**CRYNODEB**

1.1 Daeth Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 i rym ar 1 Ebrill 2016.

1.2 Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio rhai elfennau allweddol o'r Cod Ymddygiad presennol.

1.3 Rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn a rhaid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn ystyried y newidiadau hyn.

**2. GWYBODAETH GEFNDIR**

2.1 Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru fabwysiadu Cod sy'n ymwneud â'r ymddygiad a ddisgwylir gan ei Aelodau. Mae cynnwys craidd y Cod, a elwir yn God Ymddygiad Enghreifftiol, wedi'i bennu gan Weinidogion Cymru ers cyflwyno'r Cod cyntaf yn 2000. Yn 2008, diwygiwyd y Cod Enghreifftiol yn sylweddol i'w ffurf gyfredol.

2.2 Mae Gorchymyn 2016 yn diwygio'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol mewn rhai ffyrdd allweddol, sef:-

> 2.2.1 Mae'r cyfrifoldeb ar Aelodau i adrodd am unrhyw ymddygiad y credant yn rhesymol iddo fod yn groes i'r Cod Ymddygiad wedi'i newid. Bellach mae gofyn i Aelodau adrodd am y mater i'r Swyddog Monitro yn unig ac nid i'r Ombwdsmon hefyd.
>
> 2.2.2. Mae Rheol 10 (2) (b) y Cod blaenorol wedi'i dileu. Roedd hyn yn creu Buddiant Personol ble y gallai aelod o'r cyhoedd fod wedi canfod yn rhesymol wrthdaro rhwng eich rôl wrth wneud neu fod yn rhan o benderfyniad penodol a'ch rôl yn cynrychioli buddiannau etholwyr eich ward.
>
> 2.2.3 Cyflwynir darpariaethau ychwanegol ynghylch gwneud sylwadau ysgrifenedig os oes gan Aelodau fuddiant sy'n rhagfarnu. Yn y sefyllfa honno, gall Aelodau gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod yn ymwneud â'r busnes hwnnw a bwrw bod gan y cyhoedd hawl i fynychu'r cyfarfod er mwyn

gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu gyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes hwnnw. Wrth gyflwyno unrhyw sylwadau, rhaid i Aelodau gydymffurfio ag unrhyw drefn y mae'r Awdurdod wedi'i mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau.

2.3 Mewn gwirionedd, mae hyn yn rhoi Aelodau yn yr un sefyllfa ag aelod o'r cyhoedd yn yr amgylchiadau penodol hynny. Roedd darpariaethau'n bodoli eisoes er mwyn i aelodau ymarfer eu hawl i siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd o'r fath ble'r oedd trefnau'r awdurdod yn caniatáu hyn ac yn unol â threfnau'r awdurdod. Fodd bynnag, ni fydd modd i'r Aelod dan sylw drafod y mater na phleidleisio arno.

2,5 Hefyd, ceir nifer o newidiadau technegol yn ymwneud â diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a darparu eglurder ar gyfer materion yn ymwneud â Chynghorau Cymuned yn benodol.

**3. ARGYMHELLIAD**

**3.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu y newidiadau i'r Cod Ymddygiad ar Gyfer Aelodau yn unol a'r adroddiad.**

**Atodiad**

Diwygiadau perthnasol i'r Cyfansoddiad

**PAPURAU CEFNDIR**

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016

**ADRAN 18**

## 18. CÔD YMDDYGIAD AELODAU

### 18.1 YR EGWYDDORION

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion)(Cymru) 2001 yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod perthnasol yng Nghymru. Dyma nhw:-

#### 18.1.1 ANHUNANOLDEB

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Mae'n rhaid iddynt beidio byth â defnyddio eu safle fel Aelodau i roi mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

#### 18.1.2 GONESTRWYDD

Mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

#### 18.1.3 UNIONDEB A GWEDDUSTER

Mae'n rhaid i Aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y gallai unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt o ran cyflawni eu dyletswyddau godi amheuon ynglŷn â'u huniondeb. Mae'n rhaid i Aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly ar bob achlysur.

#### 18.1.4 DYLETSWYDD I GYNNAL Y GYFRAITH

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu ar bob achlysur yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi ynddynt.

#### 18.1.5 STIWARDIAETH

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, mae'n rhaid i Aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ochelgar.

#### 18.1.6 GWRTHRYCHEDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a buddiannau, mae'n rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er bod yn rhaid i Aelodau ystyried cyngor proffesiynol gan swyddogion ac y gallai fod yn briodol iddynt roi sylw i safbwyntiau pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

#### 18.1.7 CYDRADDOLDEB A PHARCH

Mae'n rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

18.1.8 **BOD YN AGORED**

Mae'n rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Mae'n rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

18.1.9 **ATEBOLRWYDD**

Mae Aelodau'n atebol i'r etholaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelodau. Mae'n rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw graffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau.

18.1.10 **ARWEINYDDIAETH**

Mae'n rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy roi arweiniad ac esiampl er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Mae'n rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

**18.2 DEHONGLIAD**

18.2.1 Yn y côd hwn mae

"**aelodau cyfetholedig**" o ran awdurdod perthnasol, yn golygu unigolyn nad yw'n Aelod o'r awdurdod ond sy'n:

(a) Aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod; neu'n

(b) Aelod o unrhyw un o gydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau'r awdurdod, ac yn cynrychioli'r awdurdod arnynt

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

"**cyfarfod**" yn golygu unrhyw gyfarfod:

(a) o'r awdurdod perthnasol;

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd yn yr awdurdod perthnasol;

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor yn yr awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor o'r fath yn unrhyw weithrediaeth neu fwrdd o'r awdurdod; neu

(ch) pan fo Aelodau neu Swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol heblaw mewn cyfarfod o grŵp gwleidyddol a ffurfiwyd yn unol â rheoliad 8 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a

Grwpiau Gwleidyddol) 1990, ac yn cynnwys amgylchiadau pryd y mae Aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu Swyddog sy'n gweithredu ar ei ben/phen ei hun yn arfer un o swyddogaethau'r awdurdod;

"**Aelod**" yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, aelod cyfetholedig.

"**Awdurdod perthnasol**" yn golygu:

(a) cyngor sir;

(b) cyngor bwrdeistref sirol;

(c) cyngor cymuned;

(ch) awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd gan gynllun o dan Adran 2 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae Adran 4 o'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo;

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan Adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995.

"**cofrestr o fuddiannau'r aelodau**" ("*register of members' interests*") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

"**chi**" yn golygu chi fel Aelod neu Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol;

"**eich awdurdod**" yn golygu'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n Aelod neu'n Aelod cyfetholedig ohono.

18.2.2 Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a)ystyr **"swyddog priodol"** ("*proper officer*") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**); a

(b)ystyr **"pwyllgor safonau"** ("*standards committee*") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**18.3 <u>DARPARIAETHAU CYFFREDINOL</u>**

18.3.1 Ac eithrio lle mae paragraph 18.3.3. yn berthnasol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn;

(a) pryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n bresennol mewn cyfarfod o'ch awdurdod;

(b) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn

rhinwedd rôl Aelod y cawsoch eich ethol neu'ch penodi iddi.

(c) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd eich awdurdod; neu

(ch) bob amser ac mewn unrhyw swyddogaeth, mewn perthynas â'r ymddygiad a nodir ym mharagraffau 18.3.6(a) a 18.3.8.

18.3.2 Dylech ddarllen y côd hwn ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a bennir o dan Adran 49(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

18.3.3 Pan gewch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu:

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys ~~awdurdod heddlu neu Fwrdd~~ Bwrdd Iechyd Lleol, mae'n rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd yn ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, mae'n rhaid i chi wrth weithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio lle y mae'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau, cyfreithlon eraill y gallai'r corff arall hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt.

18.3.4 Mae'n rhaid i chi:

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;

(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;

(c) peidio â bwlio nac aflonyddu unrhyw unigolyn; a

(ch) pheidio â gwneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu, didueddrwydd y rhai hynny sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

18.3.5 Mae'n rhaid i chi beidio â

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ystyried yn rhesymol ei bod o natur gyfrinachol, heb ganiatâd penodol unigolyn sydd ag awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod yn rhaid i chi wneud hynny o dan y gyfraith;

(b) atal unrhyw unigolyn rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl iddi o dan y gyfraith.

18.3.6 Mae'n rhaid i chi:

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;

(b) adrodd pa un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, am unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw, at ddibenion y paragraff hwn, yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellid eu cosbi trwy gosb benodedig);

(c) adrodd i ~~Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a~~ Swyddog Monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn torri'r côd ymddygiad hwn;

(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

18.3.7. Mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan Swyddog Monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir yn unol â'u pwerau statudol unigol.

18.3.8 Mae'n rhaid i chi:

(a) yn rhinwedd eich swydd neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio:

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

18.3.9 Mae'n rhaid i chi:

(a) wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wneud penderfyniadau ynglŷn â busnes eich awdurdod, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd gan ystyried unrhyw gyngor perthnasol a roddwyd gan swyddogion eich awdurdod, ac

yn enwedig gan:

(i) bennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod;

(ii) Prif Swyddog Cyllid yr awdurdod;

(iii) Swyddog Monitro'r awdurdod;

(iv) Prif Swyddog Cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef/hi pan fo unrhyw amheuaeth ynglŷn â phŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch pan un a yw'r camau arfaethedig o fewn y fframwaith polisi a gytunwyd gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol weithredu neu fethiant i weithredu gan yr awdurdod arwain at ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodwyd gan eich awdurdod.

18.3.10 Mae'n rhaid i chi:

(a) gydymffurfio â'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod.

(b) osgoi derbyn unrhyw roddion oddi wrth neb, na lletygarwch (heblaw am letygarwch swyddogol, fel derbyniad dinesig neu ginio gwaith a awdurdodwyd yn briodol gan eich awdurdod), na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu unrhyw unigolyn a allai eich rhoi chi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

## 18.4 <u>BUDDIANNAU</u>

18.4.1 <u>Buddiannau Personol</u>

(a) Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, pa un a oes gennych chi fuddiant personol, a pha un a yw'r côd ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.

(b) Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef:

(i) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt:

(A) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gennych chi;

(B) unrhyw unigolyn sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi; unrhyw gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo neu unrhyw gwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;

(C) unrhyw unigolyn, heblaw am eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn perthynas â'ch ethol neu

unrhyw dreuliau a gafwyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fe aelod;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(D) unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chi eich hun neu gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff CH uchod;

(DD) unrhyw dir y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo sydd yn ardal eich awdurdod;

(E) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord ar ei gyfer ac y mae’r tenant yn gwmni yr ydych chi’n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi’n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer, neu gorff sy’n cyfateb i’r disgrifiad a roddir ym mharagraff (CH) uchod;

(F) unrhyw gorff yr ydych wedi'ch ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(FF) unrhyw:

1. awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

2. cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;

3. corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;

4. undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

5. glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod;

yr ydych chi'n aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo/ynddi;

(G) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;

~~(ii) Pe gallai aelod o'r cyhoedd ganfod yn rhesymol wrthdaro rhwng eich rôl wrth wneud penderfyniad, ynglŷn â'r busnes~~

~~hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyffredinol a'ch rôl wrth gynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu adran etholiadol; neu~~

(iii) benderfyniad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn effeithio ar:

(A) eich lles neu eich sefyllfa ariannol, neu les neu sefyllfa ariannol unigolyn yr ydych chi'n byw gydag ef/hi, neu unigolyn y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi;

(B) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A);

(C) unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw unigolion a ddisgrifir yn (A), unrhyw gwmni y maent yn bartner ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwr ar ei gyfer;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol y mae gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A) fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau sy'n fwy na gwerth enwol £5,000; neu

(D) unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 18.4.1(b)(i)(FF)1 i 18.4.1(b)(i)(FF)5 y mae'r unigolion a ddisgrifir yn (A) yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo, i raddau mwy na mwyafrif

1. yn achos awdurdod â wardiau neu adrannau etholiadol talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill y ward neu'r adran etholiadol, fel y bo'n berthnasol, y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

2. ym mhob achos arall, talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill ardal yr awdurdod.

18.4.2 <u>Datgelu Buddiannau Personol</u>

(a) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.

(b) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn cyflwyno:

(i) sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod ynglŷn â'r busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig;neu

(ii) sylwadau ar lafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod, dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r sylwadau a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

(c) Yn amodol ar baragraff 18.4.5(a)(ii) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, mae'n rhaid i chi, o ran y busnes hwnnw, sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad hwnnw yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(ch) Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad yn unol â pharagraff 18.4.2(a) roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan Swyddog Monitro eich awdurdod neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond sy'n cynnwys, o leiaf

(i) fanylion y buddiant personol;

(ii) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef;

(iii) llofnod.

(d) Pan fydd eich Swyddog Monitro yn cytuno bod y wybodaeth yn ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 18.5.2(a), bydd eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 18.4.2 hwn i ddatgelu gwybodaeth o'r fath, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn cael eu disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol a chadarnhau bod eich Swyddog Monitro wedi cytuno bod natur y cyfryw fuddiant personol yn wybodaeth sensitif.

(dd) At ddibenion paragraff (ch), ystyrir bod buddiant personol wedi cael ei ddatgelu'n flaenorol dim ond os rhoddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu'n aelod o'ch awdurdod.

(e) At ddibenion is-baragraff (c), os na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw, ystyrir nad ydych wedi datgelu buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

18.4.3 Buddiannau sy'n Rhagfarnu

(a) Yn amodol ar baragraff (b) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

(b) Yn amodol ar baragraff (c), ni ystyrir bod gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os yw'r busnes hwnnw:

(i) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) awdurdod perthnasol arall yr ydych chi'n aelod ohono hefyd;

(B) awdurdod neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych chi'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;

(C) corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(CH) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych chi'n llywodraethwr ynddi;

(D) eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod;

(ii) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych chi denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych chi ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles;

(B) swyddogaethau eich awdurdod o ran costau prydau ysgol, cludiant a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, rhiant neu riant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plenty hwnnw/honno'n mynd iddi;

(C) swyddogaethau eich awdurdod o ran tâl salwch statudol o dan Ran XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych chi'n

derbyn tâl o'r fath gan eich awdurdod neu os oes gennych chi hawl i'w dderbyn;

(CH) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(2), neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(3);

(iii) eich rôl fel cynghorydd cymuned o ran grant, benthyciad neu fath arall o gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i sefydliad cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(c) Nid yw'r eithriadau ym mharagraff 18.4.3(b)(i) yn berthnasol pan fo'r busnes yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

18.4.4 Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) pan fo'r

(a) busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (pa un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth neu fwrdd eich awdurdod neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau eich awdurdod; ac

(b) ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Aelod o'r weithrediaeth, bwrdd, pwyllgor is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

18.4.5 Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd

(a) Yn amodol ar baragraffau (b), (c) ac (ch) pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan bwyllgor safonau eich awdurdod:

(i) fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:

(A) lle y mae paragraff (b) yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes ddod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, pa un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

(B) mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod

hwnnw;

(ii) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd o ran y busnes hwnnw;

(iii) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;

(iv) peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw, a

(v) peidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(b) (i) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(c ) Os oes gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch gyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig i gyfarfod sy’n ymwneud â’r busnes hwnnw, ar yr amod y caniateir i’r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod at y diben o wneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy’n ymwneud â’r busnes, pa un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(ch) (iii) Pan fyddwch yn cyflwyno cynrychioliadau ysgrifenedig o dan is-baragraff (c), rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y caiff eich awdurdod ei fabwysiadu ar gyfer cyflwyno cynrychioliadau o’r fath

(d) Nid yw paragraff (a) yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:

(i) os y gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol; neu

(ii) a oes gennych chi oddefeb cyn belled â'ch bod:

(A) yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a

(B) cyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n

cynnwys:

1. manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

2. manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;

3. manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd arno; a'ch

4. llofnod.

(dd) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

**18.5 <u>Y GOFRESTR BUDDIANNAU AELODAU</u>**

18.5.1 <u>Cofrestru Buddiannau Ariannol ac Eraill ac Aelodaeth a Swyddi Rheoli.</u>

(a) Yn amodol ar is-baragraff (c) mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'r

(i) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(ii) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau ariannol a buddiannau eraill, pan fyddant yn dod o fewn categori a grybwyllwyd ym mharagraff 18.4.1(b) yng nghofrestr eich awdurdod ~~a gynhelir o dan Adran 81(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000~~ trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod.

(b) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (ch), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 18.4.1(1)(b) gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(c) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (ch), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 18.4.1b) gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn

achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod

(ch) Nid yw paragraffau (a), (b) ac (c) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd un unol â pharagraff 18.5.2(a).

(d) Ni fydd paragraff (a) a (b) yn berthnasol os ydych chi'n aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod o awdurdod o'r fath.

(dd) Pan fyddwch yn datgelu buddiant personol yn unol â pharagraff 18.4.2 am y tro cyntaf, rhaid i chi gofrestru'r buddiant personol hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod

18.5.2 Gwybodaeth Sensitif

(a) Pan fyddwch o'r farn bod y wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif a bod Swyddog Monitro eich awdurdod yn cytuno, ni fydd angen i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r buddiant hwnnw, neu, fel y bo'n berthnasol newid i'r buddiant o dan baragraff 18.5.1.

(b) Mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (a) yn wybodaeth sensitif mwyach, hysbysu Swyddog Monitro eich awdurdod neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod gan ofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(c) Yn y côd hwn, mae "gwybodaeth sensitif" yn golygu gwybodaeth y byddai caniatau iddi gael ei harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu unigolyn sy'n byw gyda chi fod yn agored i drais neu fygythion.

18.5.3 Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch.

Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25 roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod neu mewn perthynas â chyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod o fodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais honno.

# Eitem 13

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **12 Mai 2016** |
| **TEITL** | **Adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau** |
| **ADRODDIAD** | **Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi diweddariad i aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael, yr datblygiadau sydd wedi'u gwireddu, a'r datblygiadau sydd ar waith.** |
| **AWDURON** | **Y Cynghorydd Tom Ellis,<br>Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
   - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
   - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
   - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf bob blwyddyn, i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt yr uchod.

2. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 14 Mai 2015 cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf i'r Cyngor Llawn yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Geraint Owen) a'r aelodau etholedig, gan gynnwys gwybodaeth am y gefnogaeth oedd yn cael ei ddatblygu.

3. Mae ymgynghori cyson yn digwydd gydag aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y gefnogaeth a gynigir i aelodau etholedig, ac, fel cynrychiolwyr eu cyd-aelodau, dilynir yr arweiniad a roddir ganddynt. Eleni, er mwyn sicrhau cyfle i'r holl aelodau fynegi barn, penderfynwyd ymgynghori, ar ffurf holiadur ar-lein, gyda'r holl aelodau etholedig i geisio eu barn ar y gefnogaeth a gynigir, gan ofyn am sylwadau adeiladol i wella'r gefnogaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r cyfle yn parhau i chi leisio eich barn trwy lenwi'r holiadur sydd wedi ei ddosbarthu yn Rhaeadr.

4. Cyflwynir isod ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol yng nghyswllt y gefnogaeth i'r aelodau.

**A. Cefnogi Cyfathrebu effeithiol?**

1. **Gwybodaeth / Gweithdai / Ymgynghori -** Cynhaliwyd nifer o weithdai ar gyfer aelodau etholedig unwaith eto eleni, gyda'r prif ffocws yn y flwyddyn anodd hon yn mynd ar Her Gwynedd. Cynhaliwyd nifer o weithdai craffu i'r holl aelodau dan arweiniad y Prif Weithredwr er mwyn sicrhau lefel arwyddocaol o ddealltwriaeth ar y materion yn ymwneud â'r Strategaeth Ariannol a'r toriadau fel bo aelodau wedi eu harfogi i allu esbonio materion i'w etholwyr. Profodd y gweithdai yn bwysig er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r materion gerbron cyn i'r Cyngor llawn drafod y mater ym mis Mawrth. Dylid nodi fod y gweithdai wedi eu cynnig mewn amrywiol leoliadau ar amrywiol amseroedd mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau yn y gorffennol ynghylch her sydd gan aelodau sy'n gweithio i fynychu digwyddiadau o'r fath. Mae adborth anffurfiol sydd wedi ei dderbyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda gwaith yn mynd rhagddo yn awr i allu dysgu gwersi o'r ymgysylltu a wnaethpwyd gyda'r aelodau a phobl Gwynedd ar gyfer y dyfodol.

2. **Pencampwyr** - Mae rôl y Pencampwyr yng Ngwynedd yn cefnogi a chynghori'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb penodol am y maes yn parhau i ddatblygu. Mae'r isod wedi eu penodi:

| | |
|---|---|
| • Pobl Hŷn | Selwyn Griffith |
| • Gofalwyr | Eryl Jones-Williams |
| • Awtistiaeth | Elin Walker Jones |
| • Datblygu Aelodau | Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| • Craffu | Cadeirydd y Fforwm Craffu |
| • Anabledd | Peter Read |
| • Yr Iaith Gymraeg | Craig ab Iago |
| • Llais Plant a Phobl Ifanc | Annwen Daniels |
| • Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Gwen Griffith |
| • Masnach Deg | R Hefin Williams |
| • Bioamrywiaeth | Angela Russell |
| • Iechyd Meddwl | Beth Lawton |
| • Cynaliadwyedd | Aled Evans |
| • Busnesau Bach | Sian Gwenllian |

3. **Fforymau Ardal –** Mae'r Fforymau ardal yn parhau i gael eu cynnal yn y pedair ardal, sef Bangor/Ogwen, Gwyrfai, Dwyfor (Pwyllgor Ardal) a Meirionnydd. Yn gyffredinol, fe ystyrir nifer ohonynt yn llwyddiannus, ond mae'r llwyddiant, mewnbwn yr aelodau a phresenoldeb yn amrywio o ardal i ardal.

4. **Gwybodaeth a Chyfathrebu Electroneg** - Mae gwybodaeth a chyfathrebu yn electroneg wedi bod yn un o'r prif faterion y mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ei drafod ers ei sefydlu. Yn sgil cais gan yr aelodau cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant pellach i'r rhai oedd yn dymuno uchafu eu sgiliau a'u defnydd o'r llechen (iPad). Pwysleisiwyd rôl i'r aelodau oedd yn

mynychu'r hyfforddiant pellach i fod yn rhannu'r wybodaeth ac yn mentora eu cyd-aelodau, gan fod rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r llechen yn y ffordd yma yn fwy effeithiol yn aml na sesiynau hyfforddiant penodol. Yn gyffredinol, mae'r sesiynau wedi bod yn llwyddiannus, gyda nifer wedi codi eu hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r llechen, gyda rhai hyd yn oed yn ei ddefnyddio i greu cardiau Nadolig electroneg!

Un o'r ceisiadau sydd wedi dod gan aelodau dros y misoedd diwethaf yw'r gallu i dderbyn/gyrru negeseuon ebost swyddogol fel Cynghorydd ar eu ffonau symudol personol. Cafwyd cadarnhad erbyn hyn fod modd cynnig gwasanaeth ble gall aelodau etholedig dderbyn / gyrru e-byst swyddogol y Cyngor ar eu ffonau symudol, ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd ddiogel gan ymlynu at yr amodau y cytunwyd arnynt gyda'r archwilwyr. Mae cost i'r Cyngor ynghlwm â'r gwasanaeth yma. Byddwn yn peilota y drefn dros y misoedd nesaf i sicrhau ei fod yn gweithio yn rhwydd cyn ei gynnig i'r holl aelodau.

Ar y llaw arall, fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn fod y niferoedd sy'n gofyn am gopïau papur o bapurau pwyllgor wedi cynyddu. Yn ogystal, ac yn fwy pryderus, daeth i'r amlwg fod nifer o aelodau sydd â darpariaeth llechen, heb fod yn ei ddefnyddio ar gyfer derbyn gohebiaeth electroneg, ac oherwydd diffyg defnydd ar eu cyfrif e-bost swyddogol, fod y cyfrif wedi ei gau yn awtomatig. Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2015 ei fod yn parhau i gefnogi uchelgais wreiddiol y Cyngor i gyfathrebu yn electroneg gydag aelodau, a hynny drwy gyfeiriad ebost swyddogol y Cyngor.

Mae rhai aelodau wedi wynebu problemau wrth newid eu cyfrinair ac yn y blaen, ond wrth gysylltu â'r ddesg gymorth TG mae hynny wedi ei ddatrys yn hwylus iddynt. Os yw aelodau yn cael anhawster, yna dylid cysylltu â'r Ddesg Gymorth TG ar 01286 679 114 am gymorth.

Yn ogystal, mae gwaith wedi cychwyn eisoes ar ddechrau adnabod cyfarpar electroneg addas ar gyfer ateb gofynion y Cyngor ac aelodau etholedig ar gyfer y cyfnod yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Er ei fod yn teimlo yn bell i ffwrdd, mae angen cychwyn cynllunio yn awr i sicrhau'r ateb mwyaf addas.

5. **Modern.Gov** - Datblygiad a ddaeth i gynorthwyo aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn yw Modern.Gov. System yw ar gyfer hwyluso mynediad aelodau at ddogfennau pwyllgorau, fel bo'r papurau pwyllgorau perthnasol yn cyrraedd y llechen yn awtomatig heb i'r aelodau orfod chwilio am linc ebost i lawr-lwytho dogfennau ac yn y blaen. Gellir gwneud hyn i gyd drwy gyfrwng yr ap. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant i aelodau ym mis Tachwedd 2015 gydag oddeutu hanner yr aelodau yn bresennol. Daeth i'n sylw fod rhai aelodau ddim yn defnyddio Modern.Gov ac felly bu swyddogion wedyn yn ceisio cynorthwyo aelodau er mwyn hybu defnydd.

   Mae nifer fawr o aelodau wedi datgan eu bod yn ystyried y safle we ar ei newydd wedd yn llawer iawn gwell, ac yn fwy hwylus i bobl Gwynedd sicrhau

mynediad a gwybodaeth am eu haelod etholedig lleol. Mae’r tudalennau fesul aelod etholedig wedi derbyn canmoliaeth. Noder fod gwybodaeth am bresenoldeb aelodau bellach yn cael ei gyhoeddi yn awtomatig ar y tudalennau hyn, ac mae’r wybodaeth yn cael ei ddiweddaru yn gyson. Noder ein bod yn datblygu’r safle, ac y byddwn yn ychwanegu mwy a mwy o wybodaeth am wahanol bwyllgorau wrth i amser fynd rhagddo. Mae pryder am bresenoldeb (heblaw am mewn achlysuron o salwch/ salwch tymor hir) wedi bod yn destun trafod mewn nifer o wahanol fforymau, ac mae Arweinwyr yr holl grwpiau gwleidyddol yn derbyn gwybodaeth pan fod aelod heb bresenoli am gyfnod penodol.

6. **Bwletinau Gwybodaeth - *Rhaeadr* -** Sefydlwyd *Rhaeadr* yn wreiddiol mewn ymateb i gais gan aelodau i dderbyn eu holl wybodaeth yn amserol a chyflym, trwy ddull electroneg ac o un porth gwybodaeth (yn lle e-byst gan bawb a phopeth).

   Mae’r erthyglau a gyflwynir yn *Rhaeadr* yn cynnwys gwybodaeth am beth mae’r Cabinet ac aelodau’r Cabinet yn ei wneud, materion cefnogi aelodau, beth sy’n digwydd yn ehangach o fewn y Cyngor (newyddion diweddaraf, datganiadau i’r Wasg) a materion o fewn wardiau (gwaith ffordd, gwaredu eiddo, materion cynllunio ayyb). Yn ystod eleni

   - Cyhoeddwyd cyfanswm o 308 o erthyglau (ar gyfartaledd o 27 o erthyglau'r mis)
   - gyda 942 ‘golwg’ o’r safle Gymraeg ar gyfartaledd a 309 ‘golwg’ o’r safle Saesneg ar gyfartaledd bob mis - hynny yw, sawl gwaith mae unigolyn yn clicio ar erthygl benodol i’w darllen yn llawn. Noder mae modd cael blas o’r gwahanol erthyglau drwy ymweld a’r dudalen gartref yn unig.

   Mae gwaith yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i adolygu gwedd a’r ffordd mae’r newyddlen yn cael ei gyhoeddi er mwyn sicrhau ei fod yn addas ac yn diwallu anghenion aelodau a swyddogion. Mae tair prif elfen wedi bod i’r gwaith:

   - gofyn i’r aelodau etholedig i lenwi holiadur;
   - creu safle prawf gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniawyd o’r holiadur a gwaith ymchwil pellach gan swyddogion;
   - treialu’r safle prawf efo rhai aelodau etholedig ar ddiwedd cyfarfod o’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a chynal sesiynau 1:1 efo rhai aelodau.

   Roedd yr ymateb i’r newidiadau arfaethedig yn bositif a chafwyd adborth gwerthfawr gan aelodau. Byddwn yn bwrw ymlaen gyda’r addasiadau, gyda *Rhaeadr* ar ei newydd wedd i ddilyn yn fuan.

7. **Y berthynas rhwng Craffu a’r Cabinet -** Mae’r berthynas rhwng Craffu a’r Cabinet yn parhau i ddatblygu, gyda’r holl aelodau yn cyd-weld fod angen parch a chydweithio er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer trigolion Gwynedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion Craffu a’r Cabinet i drafod yn agored ac adeiladol y gwersi a ddysgwyd hyd yma, a chynnydd i’r dyfodol.

Eisoes mae gogwydd Craffu wedi newid rhywfaint, gyda nifer o eitemau wedi eu craffu eleni cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet.

Yn ogystal, mae trefniant ffurfiol yn bodoli bellach lle mae Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet er mwyn cyflwyno eu hargymhellion yn ffurfiol i'r Cabinet. Bydd yr Aelod Cabinet wedyn un ai yn derbyn , neu wrthod yr argymhellion gan nodi eu rheswm. Mae hyn yn creu tryloywder yn y trefniadau rhwng craffu a'r cabinet, gan sicrhau dilyniant i eitemau. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn gyfredol i edrych ar ein trefniadau craffu, gyda'r ffocws ar sicrhau fod craffu yn ychwanegu gwerth.

8. **Gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor**
Mae'r Cyngor yn gwe-ddarlledu rhai o brif gyfarfodydd y Cyngor ers Ionawr 2015, a hynny mewn ymgais i hyrwyddo a chynyddu atebolrwydd democrataidd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cyngor. Mae'r ffigurau gwylio wedi codi dros y 18 mis diwethaf, wrth i fwy a mwy o drigolion Gwynedd ddod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth yn dilyn hysbysiadau yn y papurau newydd ac ar trydar a facebook y Cyngor. Yn amlwg, mae'r ffigurau gwylio yn amrywio o bwyllgor i bwyllgor, ac mae'n ymddangos fod nifer yn gwneud defnydd o'r archif yn hytrach na'r gwe-ddarllediad byw.

Mae'n agosáu at ddiwedd cytundeb y Cyngor gyda'r cwmni gwe-ddarlledu cyfredol, ond yn ysbryd hybu democratiaeth a thryloywder, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn awyddus i'r gwasanaeth barhau, yn arbennig yng ngoleuni'r ymgynghoriad diweddar ar Fesur Llywodraeth Leol fydd yn annog mwy o we-ddarlledu.

Gellir gwylio'r gwe-ddarllediadau trwy'r ddolen isod:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Cynghorwyr-a-phwyllgorau.aspx

9. **Mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor** – Mae aelodau'r Cyngor eisoes yn gyfarwydd iawn gyda chynnal cyfarfodydd anffurfiol trwy gyfrwng fideo-gynhadledd, ac mae'r arfer yma wedi gweithio yn hwylus iawn dros y blynyddoedd er mwyn hwyluso aelodau rhag gorfod teithio i'r Pencadlys yn barhaus. Eleni, cynhaliwyd peilot o gynnal Pwyllgor ffurfiol trwy fideo-gynhadledd rhwng Siambr Hywel Dda, ac ystafelloedd fideo-gynhadledd Pwllheli a Dolgellau. Bu'r ymarferiad yn llwyddiant, ac fe adnabuwyd gwersi i'w dysgu hefyd. Byddwn yn parhau i geisio datblygu mynediad o bell yn ystod y flwyddyn nesaf.

**B. Cefnogaeth i aelodau etholedig gynnal eu dyletswyddau penodol**

10. **Cyfweliadau Datblygiad Personol -** Cyfle i aelodau (nad ydynt yn Aelodau Cabinet) asesu eu hanghenion datblygu unigol trwy sgwrs gyfrinachol yw'r Cyfweliadau Datblygiad Personol, gydag allbwn y sgyrsiau yn gyfle i ddylanwadu ar liwio rhaglen hyfforddiant y Cyngor i aelodau neu i drefnu

digwyddiadau i'r unigolyn o ran hyfforddiant. Cyfarchwyd nifer o'r themâu a gododd yn y gorffennol yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2015/16, a bu'r cyfweliadau hefyd yn fodd o godi ymwybyddiaeth am rai o'r cyrsiau sy'n bodoli eisoes.

Rhoddwyd cyfle i aelodau etholedig fanteisio ar gyfweliadau / sgyrsiau o'r fath unwaith eto eleni, a gyrrwyd gwahoddiadau trwy *Rhaeadr* ar fwy nag un achlysur. Yn anffodus, isel iawn oedd y gofyn eleni.

11. **Datblygiadau yn yr ardal leol neu ar faterion penodol (ymholiadau neu gwynion) -** Fe welwyd eleni fod Aelodau Cabinet a swyddogion wedi cadw at eu gair trwy gynnwys yr holl aelodau lleol mewn trafodaethau yn fuan. Bu ymrwymiad hefyd gan aelodau unigol i barchu ymddiriedaeth a chyfrinachedd hyd fod cynigion newid yn aeddfed i'w cyhoeddi ac ymgynghori arnynt.

    Trefniadau cyswllt gweithredol - Rydym yn llawn ymwybodol fod cryn rwystredigaeth gan aelodau ynghylch pwy y dylid cysylltu â hwy, ac rydym wrthi yn datblygu taflen 'cyswllt' ar hyn o bryd. Dylai aelodau gysylltu trwy Galw Gwynedd oherwydd effeithlonrwydd Galw Gwynedd yn tracio ymholiadau. Petai ymholiad neu gŵyn penodol, parheir i annog aelodau i geisio cysylltu â'r gwasanaeth penodol yn y lle cyntaf i gael ymateb i ymholiad, ac os nad yw'r ateb a ddarperir yn ddigonol, dylid cyfeirio'r mater penodol at sylw'r Aelod Cabinet perthnasol. Parheir i annog aelodau i ddefnyddio'r systemau priodol sydd ar gael iddynt.

12. **Hawliau Aelod Unigol mewn cyfarfodydd Cabinet** – Gwahoddir yr aelod lleol i fod yn bresennol os yw mater lleol yn codi. Cyfrifoldeb swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yw adnabod aelodau lleol ar gyfer eitemau lleol, a chyfrifoldeb yr aelod lleol yw sicrhau ei fod/ei bod yn ymwybodol o gynnwys rhaglen y Cabinet.

13. **Hyrwyddo rôl yr aelod (wrth baratoi am etholiadau Mai 2017) -** Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, yn nodi bod diffyg amrywiaeth ymhlith ymgeisydd Llywodraeth Leol, yn arbennig yn nhermau pobl ifanc, yr anabl, lleiafrifoedd ethnig a merched. Tra bo gwaith cenedlaethol yn mynd rhagddo, mae grŵp bychan o aelodau wedi bod yn gweithio ar ddeall beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd, codi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd i ddemocratiaeth a beth mae'r Cyngor yn ei wneud a pha gyfleoedd sydd i gymryd rhan, yn y gobaith o annog mwy o drigolion o wahanol gefndiroedd (pobl ifanc a merched yn benodol) i sefyll yn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2017. Maent hefyd wrthi'n ceisio adnabod y rhwystrau sy'n atal unigolion rhag sefyll mewn etholiad gan sefydlu rhaglen waith i ymateb i hynny ble'n bosib. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r gwaith hwn, gyda'r prosiect wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2016-2020.

    Paratoi at etholiadau Mai 2017 - Mae rhan o'r gwaith uchod hefyd yn cwmpasu dechrau paratoi at etholiadau Llywodraeth Leol a gynhelir ym mis Mai 2017. Wedi gwrando ar sylwadau nifer o aelodau etholedig sydd wedi ymuno â'r Cyngor ers mis Mai 2012, neges glir sydd i'w chlywed yw bod nifer

wedi nodi nad oeddent yn llawn ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl yn dilyn llwyddiant wrth gael eu hethol. I ymateb i'r sylwadau hyn, mae gwaith ar y gweill i:

a) Ddatblygu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer rhai sydd yn rhoi eu henwau ymlaen i sefyll yn yr etholiadau ym Mai 2017. Bydd hyn yn gyfle i ddarpar aelodau ystyried a deall y sefyllfa cyn iddynt gael eu hethol – gan geisio sicrhau gwell eglurder o'r cyfleon iddynt, y gofynion arnynt, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn dilyn etholiad llwyddiannus.
b) Ddatblygu rhaglen anwytho aelodau etholedig yn dilyn etholiad Mai 2017. Unwaith eto mae sylwadau wedi ein cyrraedd am y sesiynau a gynhaliwyd yn ôl yn 2012, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio sesiynau anwytho a hyfforddiant dilynol yn synhwyrol a rhesymol gan ystyried sylwadau a dderbyniwyd ag ymgynghori gydag aelodau presennol.
c) Cyfarpar electroneg. Yn yr un modd mae angen cychwyn ystyried yn awr beth yw / fydd anghenion aelodau etholedig a'r Cyngor i'r dyfodol, gan ddechrau paratoi ac ystyried beth yw'r cyfarpar mwyaf addas i'w gynnig i aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017.

**C. Cefnogaeth i aelodau craffu a phwyllgorau eraill**

14. **Gweinyddu a chofnodi cyfarfodydd a chyhoeddi'r cofnodion (holl bwyllgorau)** - Mae'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu rhaglenni a llunio cofnodion o waith dros 40 o wahanol endidau pwyllgorau gan eu cyhoeddi ar safle we'r Cyngor yn ddwyieithog. Rydym yn parhau i adolygu'r gwaith yn gyson gan geisio ymgyrraedd at eglurder yn y cofnodion yn barhaus. Mae cryn waith wedi ei wneud gyda chadeiryddion y gwahanol bwyllgorau i grynhoi penderfyniadau/ argymhellion ar ddiwedd pob eitem er mwyn sicrhau eglurder ymysg yr aelodau sy'n bresennol.

15. **Ymchwiliadau Craffu** - ymchwilio i wir effaith gwahanol bolisïau ar drigolion Gwynedd yw pwrpas ymchwiliadau craffu, gan edrych fesul maes mewn mwy o fanylder nag y gellid gwneud i eitem mewn pwyllgor. Gyda chriw bychan o aelodau fesul ymchwiliad, ynghyd â chefnogaeth gan swyddogion ag arbenigedd mewn meysydd penodol a chefnogaeth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd, mae nifer o ymchwiliadau 'cychwyn a gorffen' wedi bod ar y gweill yn 2015/16.

<u>Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>
- Addysg Gymraeg
- Gwasanaethau Cefnogol Addysg
- O'r Ysbyty i'r Cartref
- Alltwen

<u>Pwyllgor Craffu Cymunedau</u>
- Digartrefedd
- Gorfodaeth Stryd

<u>Pwyllgor Craffu Corfforaethol</u>
- Trethi Tai Haf

- Ymgysylltu

## Ch. Cefnogaeth i'r holl aelodau – gweinyddol, ymarferol a datblygiadol

16. **Cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol –** Gweithredir cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol yn unol â phenderfyniad y cyngor ym mis Mai 2012, gyda'r tri grŵp mwyaf yn derbyn cefnogaeth weinyddol yn unol â'u maint.

17. **Gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio** – Gweinyddir, prosesir a thelir cyflogau a chostau teithio yn unol â chanllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddir gwybodaeth am gostau aelodau ar y safle we yn flynyddol yn unol â'r gofynion. Mae'r canllawiau ar gyfer hawlio ar y wefan. Atgoffir yr aelodau o'r angen i gyflwyno cais bob mis yn unol â'r canllawiau.

18. **Adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig -** Rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau i alluogi aelodau etholedig i gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol, ond nid yw yn orfodol i unrhyw aelod baratoi adroddiad o'r fath yn gyfredol. Bydd yr aelodau yn cofio, fodd bynnag, fod y Cyngor wedi ymateb yn bositif i'r cwestiwn ynghylch gorfodaeth ar aelodau i gynhyrchu adroddiadau blynyddol fel rhan o ymgynghoriad diweddar.

    Bu cynnydd eto yn y nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014/15 (cyhoeddwyd Gorffennaf 2015), gyda 39 aelod wedi dewis gwneud hynny. Bydd y canllawiau ar gyfer cynhyrchu adroddiadau ar gyfer 2015/16 yn cael eu dosbarthu trwy *Rhaeadr* yn fuan.

19. **Rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant** - Gan fod 2016/17 yn flwyddyn olaf cyn etholiadau Llywodraeth Leol, roeddem yn ymwybodol y byddai anghenion aelodau ar gyfer y rhaglen hyfforddiant ychydig yn wahanol. Ymgynghorwyd â swyddogion yn yr un modd ag arfer i sicrhau fod yr elfennau holl bwysig yn parhau i gael eu cynnwys ar y rhaglen hyfforddiant. Yn ychwanegol, cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 22/03/2016 er mwyn ceisio eu barn ar lywio'r rhaglen ar gyfer eleni. Mae sylwadau'r Pwyllgor wedi eu hymgorffori yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2016/17.

    Mae presenoldeb ar y cyrsiau hyfforddiant yn parhau i fod yn bryder. Mae disgwyl i aelodau geisio mynychu sesiynau hyfforddiant er mwyn sicrhau fod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf gan fod newidiadau cyson mewn nifer o feysydd. Mae'n wir fod mynychu cyrsiau yn sialens i rai aelodau oherwydd ymrwymiadau gwaith ac yn y blaen, ac felly mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wrthi'n datblygu dysgu dros y we, a fydd, gyda gobaith, yn cynnig dull amgen i aelodau dderbyn hyfforddiant mewn modd hwylus ac i gynyddu cyfranogiad mewn hyfforddiant.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **12fed Mai 2016** |
| **TEITL** | **Cyflogau Aelodau** |
| **ADRODDIAD** | **Adroddiad gan is-grŵp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell y ffordd ymlaen o ran cyflogau aelodau etholedig** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Tom Ellis,<br>Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ran yr is-grŵp** |

Cynnwys Adroddiad blynyddol Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

1. Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ym mis Chwefror 2016, sy'n gosod yr arweiniad ynghylch cyflogau sy'n daladwy i aelodau etholedig yn flynyddol. Gellir dilyn y ddolen isod os ydych yn dymuno gweld yr adroddiad llawn. http://gov.wales/irpwsub/home/publication/2016-17/irp-annual-report-2016-17/?skip=1&lang=cy

2. Mae'r prif gasgliadau o'r adroddiad fel a ganlyn:

   a. Dim newid yn y cyflogau sylfaenol i drwch yr aelodau
   b. Dim newid yn y cyflogau i'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd
   c. Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Aelodau Cabinet ar un o ddwy lefel cyflog, Lefel 1, £29,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£26,100)
   ch. Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel, Lefel 1, £22,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£20,000)

3. Mae adroddiad y Panel yn nodi mai gan y Cyngor y mae'r hawl i wneud penderfyniadau ar bwyntiau 2c a 2ch uchod.

4. Wrth wneud y penderfyniad, dylai'r Cyngor ystyried nid yn unig ar ba lefel i osod y swyddi gwahanol ond hefyd a oes lle i wahaniaethu rhwng y cyfrifoldebau gwahanol. O ran lefel y cyfrifoldebau sydd yn cael eu hysgwyddo gan Aelodau Cabinet gwahanol, dylid nodi ein bod wedi gwneud ymdrech fwriadol, fel Cyngor, i rannu cyfrifoldebau Cabinet mor gyfartal â phosib. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a oes gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan y cadeiryddion pwyllgorau a nodir isod ac, yn wir, gadeiryddion rhai pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth arbennig, fel y Pwyllgor Pensiynau, y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

5. Cynhaliwyd trafodaeth ar y mater yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd diwethaf gynhaliwyd ar 22/03/2016. Yn ystod trafodaethau yn y Pwyllgor, bu i'r aelodau ystyried dyraniad bwriadol dyletswyddau aelodau Cabinet i sicrhau cysondeb a llwyth gwaith cytbwys. Yn ogystal, ystyriwyd y ffaith y byddai'n gallu

arwain at gryn gymhlethdod petai mwy nag un lefel cyflog i aelodau Cabinet, gan olygu fod symud dyletswyddau o aelod cabinet i un arall yn mynd yn anos. Ystyriwyd hefyd fod natur ddaearyddol y sir a'r sialens o ddarparu gwasanaethau ar draws yr ail sir fwyaf yng Nghymru yn ffactor y dylid ei ystyried ar gyfer yr aelodau Cabinet a Chadeiryddion y pwyllgorau. Yn yr un modd ystyriwyd y gofyn ar aelodau i fod yn teithio ar draws Gwynedd, gan gofio y gall gymryd oddeutu dwy awr a hanner i deithio o Ogledd y Sir i'r de.

6. Ar sail y trafodaethau a'r ystyriaethau uchod, bu i'r Pwyllgor benderfynu argymell fel a ganlyn:

6.1 Cadw lefel cyflogau Aelodau Cabinet ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith a chyfrifoldebau cyfartal i'r meysydd gwaith) a chadw lefelau cyflogau Cadeiryddion Pwyllgorau ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith, natur ddaearyddol y sir a'r gofynion i deithio i gyfarfodydd ayyb)

6.2 Sefydlu grŵp bychan o aelodau o'r Pwyllgor hwn i edrych eto ar y Cadeiryddiaethau sydd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol uwch, gan adrodd eu argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

<u>Gwaith yr is-grŵp</u>

7. Mae'r uwch gyflogau a delir yn gyfredol fel a ganlyn:
    - Arweinydd ac Is-Arweinydd y Cyngor
    - pob Aelod Cabinet
    - Arweinydd yr wrth-blaid fwyaf
    - Cadeiryddion pwyllgorau isod yn cael lefel 1:-
      Pwyllgor Craffu (X3)
      Pwyllgor Archwilio
      Pwyllgor Cynllunio
      Pwyllgor Trwyddedu
      Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth

8. Pan wnaethpwyd y gwaith o adnabod y rhestr uchod, bu cryn drafodaeth cyn penderfynu ar yr olaf o'r uwch-gyflog i'w dyrannu, gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Iaith, y Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth a'r Pwyllgor Pensiynau dan ystyriaeth. Penderfynodd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 28ain Chwefror 2013, ar sail y wybodaeth oedd i law bryd hynny i ddyfarnu yr uwch-gyflog olaf i Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth.

9. Bu i aelodau'r is-grŵp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ofyn i ystyried a oedd defnyddio elfennau o'r drefn arfarnu swyddi am gynorthwyo gyda'r gwaith pellach yma. Yn dilyn cryn bwyso a mesur daethpwyd i'r casgliad nad oedd defnyddio elfennau o'r Drefn Arfarnu Swyddi Staff yn addas.

10. Er mwyn cadw cysondeb gyda'r asesiad gwreiddiol a wnaethpwyd wrth asesu pa rolau oedd i dderbyn uwch-gyflogau, penderfynwyd ystyried yr un ffactorau eto, sef

- Pwysau gwaith
- Pwysigrwydd y rôl i gyd-aelodau
- Rôl arweiniol a datblygol y pwyllgor

11. Gweler manylion yn yr atodiad ynghylch nifer cyfarfodydd, gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor, Rôl y Cadeirydd, a gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor (ee hyfforddiant, mynychu cyfarfodydd a seminarau ayyb). Gweler Atodiad A.

12. Wedi pwyso a mesur y wybodaeth sydd wedi ei ddiweddaru yn yr atodiad, gwelwyd fod rhywfaint o newid wedi digwydd yn y pwysau gwaith a'r disgwyliadau ers yr asesiad gwreiddiol, gyda lleihad mewn gofynion ar rai, ond cryn bwysau ychwanegol i ddod yn sgil newid mewn gofynion, yn arbennig i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau.

**ARGYMHELLIAD**

13. Cadw lefelau cyflogau Aelodau Cabinet ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith a chyfrifoldebau cyfartal i'r meysydd gwaith) a chadw lefelau cyflogau Cadeiryddion Pwyllgorau ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith, natur ddaearyddol y sir a'r gofynion i deithio i gyfarfodydd ayyb)

14. Ar sail y wybodaeth a ystyriwyd gan yr is-grŵp, argymhellir y telir uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn sgil y gwaith a'r gofynion ychwanegol sydd i ddod i Gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn sgil y newidiadau.

15. Er mwyn gallu gweithredu ar yr argymhelliad uchod, gan fod y Cyngor wedi ei gyfyngu i dalu 18 uwch-gyflog yn unig, argymhellir, o'r dystiolaeth sydd i law, na thelir uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth o hyn allan.

Dogfen Gefndir

Llythyr gan Gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dyddiedig 18 Chwefror, 2016.

**Pwyllgor Apeliadau Cyflogaeth**

| | | |
|---|---|---|
| a | Nifer cyfarfodydd | Cynhaliwyd 4 cyfarfod yn 2015-16, ond mae oddeutu 10 yn cael eu rhaglennu yn flynyddol ar gyfer gallu cynnal gwrandawiadau buan petai'r angen yn codi.<br>Gall cyfarfodydd bara rhan helaethaf o'r diwrnod, ac mae gwaith paratoi manwl cyn cyfarfodydd.<br>Dylid nodi fod potensial i'r niferoedd o apeliadau gynyddu o ganlyniad i weithredu'r toriadau, ond wrth gwrs mae'n amhosib dweud ar hyn o bryd beth fydd y llwyth gwaith mewn gwirionedd. |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Cynhelir sesiwn briffio byr ar y ffon gyda'r cadeirydd yn y cyfnod ar ôl i'r swyddogion ryddhau'r rhaglen, ond cyn y cyfarfod.<br>Cynhelir sesiwn briffio byr ar ddiwrnod y cyfarfod hefyd i fynd dros faterion.<br>Mynychu swyddfeydd y Cyngor i sicrhau fod y llythyr yn gywir, a'i arwyddo yn dilyn achos. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy<br>• Sicrhau chware teg i bob ochor<br>• Bod yn ddiduedd, agored a theg<br>• Bod yn gadarn, ond teg i bob 'ochor'<br>• Gwneud i bobl deimlo yn gartrefol<br>• Bod yn glir o'r drefn a chadw at y drefn<br><br>Noder hefyd y bydd penderfyniad y Pwyllgor fesul apêl yn cael ei adrodd yn gryno ar lafar gan y Cadeirydd ar ddiwedd y gwrandawiadau unigol a bod llythyr yn cadarnhau penderfyniad (sydd ddim o anghenraid yn plesio'r apeliwr) yn mynd yn enw'r Cadeirydd. |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Nid oes gofynion teithio/ hyfforddiant/ mynychu cyfarfodydd traws-Gymru. |

**Pwyllgor Iaith**

| | | |
|---|---|---|
| a | Nifer cyfarfodydd | Cynhaliwyd 4 cyfarfod yn 2015-16.<br>Yn ychwanegol, cynhelir oddeutu 4 cyfarfod o "ymchwiliadau iaith" yn flynyddol.<br>Bydd cyfarfodydd yr "ymchwiliadau iaith" tua hanner diwrnod ar gyfartaledd. Fel arfer, cadeirir yr ymchwiliad gan aelod arall, fel arfer y Pencampwr Iaith. |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Cynhelir sesiwn briffio byr ar ddiwrnod y cyfarfod i fynd dros faterion. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy<br>• Drafod, adnabod, blaenoriaethu a rhesymoli'r materion i'w cynnwys ar yr agenda er mwyn sicrhau rhoi sylw i'r materion strategol pwysicaf |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cadw'r balans rhwng y materion a'r blaenoriaethau strategol mawr a'r materion / pryderon lleol<br>• Ymdrin â materion / pryderon neu gwynion mwy lleol eu natur. |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Nid oes gofynion teithio/ hyfforddiant/ mynychu cyfarfodydd traws-Gymru. Mae gan Aelod Cabinet penodol gyfrifoldeb am y maes iaith ac felly mae gofynion pellach yn disgyn arno. |

**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

| | | |
|---|---|---|
| a | Nifer cyfarfodydd | Cynhaliwyd 4 cyfarfod yn 2015-16.<br>Cynhaliwyd 5 cyfarfod o'r is-grwp amrywiaeth yn ystod y flwyddyn, gydag gofynion ar y Cadeirydd. |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Cynhelir sesiwn briffio byr ar y ffon gyda'r cadeirydd cyn y cyfarfod, gan drafod yr adroddiadau rhag-blaen fel bo'r Cadeirydd yn cael amser i'w hystyried.<br>Cynhelir sesiwn briffio byr ar ddiwrnod y cyfarfod hefyd i fynd dros faterion.<br>Bydd cyfarfod (ar y ffon) ar ôl y cyfarfod hefyd er mwyn sicrhau fod gweithredu ar faterion yn digwydd yn gywir a hwylus.<br>Galwadau ffon ad-hoc yn ddibynnol ar faterion sy'n codi. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Cadeirio'r cyfarfod trwy<br>• Drafod, blaenoriaethu a rhesymoli'r materion i'w cynnwys ar yr agenda er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r materion strategol pwysicaf<br>• Adnabod materion o bwys i'r holl aelodau sy'n deillio o sylwadau / cwynion gan gyd-aelodau am faterion sydd o fewn sgôp y Pwyllgor.<br>• Bod yn deg a chytbwys wrth ystyried gwahanol faterion<br><br>Bydd y Cadeirydd hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gyfarfod y Cyngor llawn yn flynyddol. |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Mae rhywfaint o alwadau ar y Cadeirydd y tu allan i gyfarfodydd penodol y Pwyllgor, megis:<br>• Trafod a derbyn sylwadau gan gyd-aelodau yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor<br>• Mynychu cyfarfodydd Cymru gyfan i drafod goblygiadau datblygiadau statudol gan gynrychioli'r Cyngor ac aelodau etholedig yn ystod y cyfarfod. (Dim ond un cyfarfod y flwyddyn fydd o hyn allan). |

**Pwyllgor Pensiynau**

| | | |
|---|---|---|
| a | Nifer cyfarfodydd | Yn hanesyddol:<br>cyfarfod blynyddol o gyflogwyr y Gronfa,<br>4 cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Pensiynau,<br>4 cyfarfod anffurfiol o'r panel buddsoddi. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd y prosiect cyd-fuddsoddi yn newid hynny, wrth i'r 8 o gronfeydd C.P.Ll.L. yng Nghymru symud ymlaen i sefydlu a gweithredu trefn o gydweithio, gan gynnwys caffael ar y cyd, fframweithiau pŵlio ar gyfer buddsoddiadau ar y cyd, gyda strwythur llywodraethu priodol ac ymatebol i yrru a rheoli'r cydweithio yn y dyfodol.<br><br>Yr 8 cronfa bensiwn yng Nghymru yw Abertawe, Caerdydd, Clwyd (Sir y Fflint), Dyfed (Sir Gaerfyrddin), Gwent (Torfaen), Gwynedd, Powys, a Rhondda Cynon Taf. Bydd Cadeiryddion rhain, ynghyd a'r swyddogion perthnasol, yn cwrdd yn weddol aml i sefydlu a gweithredu trefn o lywodraethu'r cyd-fuddsoddi arfaethedig (oddeutu 5 neu 6 cyfarfod y flwyddyn, ac angen mynychu 2 neu 3 digwyddiad cenedlaethol arall).<br><br>Rhagwelir i'r nifer cyfarfodydd fwy na dyblu, o tua 9 cyfarfod, i tua 22 cyfarfod y flwyddyn, gyda'r pwysau ar Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau fod yn dipyn mwy heriol yn rhai o'r cyfarfodydd rheiny |
| b | Gofynion gan swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Gofynion y tu allan i'r pwyllgor wedi eu amlinellu uchod ac isod. |
| c | Rôl y Cadeirydd | Yn y dyfodol, bydd angen i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau fod yn fwy prysur yn y maes, a gwneud mwy o waith paratoi ac adrodd yn ôl, gan mai ef fydd yr unig aelod yn bresennol yn cynrychioli cronfa bensiwn Gwynedd yn y drefn cyd-fuddsoddi Cymreig.<br><br>Fydd hynny ddim yn disodli'r cyfarfodydd o'r Pwyllgor Pensiynau, fydd yn parhau ar lefel mwy strategol: dyrannu'r gronfa rhwng gategorïau o asedau fel ecwiti, bondiau, eiddo, ayb, yn hytrach na dewis nifer o gwmnïau i fuddsoddi portffolio ar ran y Gronfa. |
| ch | Gofynion pellach y tu allan i gyfarfodydd y Pwyllgor | Ymhellach, ers haf 2015, sefydlwyd Bwrdd Pensiynau Gwynedd, sy'n craffu penderfyniadau a perfformiad cronfa bensiwn Gwynedd. Disgwylir bydd y Bwrdd Pensiynau yn galw Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau gerbron yn aml (5 cyfarfod blynyddol), er mwyn bod yn atebol am benderfyniadau'r Pwyllgor ac i drafod ymateb y Pwyllgor (panel buddsoddi) i faterion perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa, ayb. |

# Eitem 15

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **12 Mai 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Cydbwysedd Gwleidyddol Y Cyngor** |
| **PWRPAS** | **Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cyngor wedi gweld cryn newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol yn ystod 2015/16.

1.2 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3ydd o Fawrth, 2016 adroddwyd fod cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 39 |
| Annibynnol | 20 |
| Llais Gwynedd | 8 |
| Llafur | 5 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 1 |
| **Cyfanswm** | **75** |

1.3 Mae'r cydbwysedd gwleidyddol yn parhau yn ddi-newid.

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar baragraffau (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Er mwyn ymateb i ofynion Mesur Llywodraeth Leol (2011) o ran dyrannu'r cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau, rhennir y pwyllgorau i flociau ar wahân.

3.2 Yn unol â gofynion adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny, a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

3.3 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiriau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yw'r Pwyllgorau Craffu canlynol. Yn unol â chytundeb Grŵp Busnes y Cyngor, awgrymir dyrannu y cadeiryddiaethau fel a ganlyn i adlewyrchu'r arferiad i'r is-gadeiryddion gamu i'r gadeiryddiaeth yn naturiol:

| | |
|---|---|
| Corfforaethol | Llais Gwynedd |
| Cymunedau | Plaid Cymru |
| Gwasanaethau | Annibynnol |

3.4 Yn unol ag adran 83 o'r Mesur, ni chaiff cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio fod yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.

3.5 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw na chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu).

3.6 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i ddwy flynedd. Y pwyllgorau craffu eu hunain fydd yn ethol yr is-gadeiryddiaethau.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r dyraniad yn Atodiad A, sydd yn gyson â'r hyn a fabwysiadwyd ar 3ydd Mawrth 2016. Er mwyn cymeradwyo'r argymhelliad, a hynny oherwydd nad yw y rheolau'n cael eu gweithredu'n llawn, bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymeradwyo'n ddiwrthwynebiad (fel y gwnaethpwyd yn y gorffennol)

- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

- mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | Llais Gwynedd |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | Annibynnol |

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 5 | 2 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 10 | 4 | 2 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 10 | 5 | 2 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 4 | 2 | 1 | | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | | |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 2 | | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 | |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | |
| **Nifer y seddau** | **82** | **41** | **16** | **9** | **4** | **2** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 1 | 2 | | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **102** | **51** | **20** | **13** | **5** | **3** | **194** |